department for
culture, media
and sport

Cynnig ar Gasglu a Chadwraeth Cyhoeddiadau All-lein a Microffilm y DU a Chyhoeddiadau Ar-lein y DU

Ar gael yn rhad ac am ddim a heb gyfyngiad ar fynediad

Deddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol 2003
Rhagfyr 2009

improving
the quality
of life for all

Ein nod yw gwella ansawdd bywyd i bawb drwy weithgareddau diwylliannol a chwaraeon, cefnogi'r cais am ragoriaeth, a hyrwyddo'r diwydiannau twristiaeth, creadigol a hamdden.

Cynnwys

Pennod 1: Gwybodaeth Gyffredinol 4

Pennod 2: Pwrpas 5

Atodiad A: Cynigion ar gyfer Cyhoeddiadau All-lein a Microffilm 7

Atodiad B: Cynigion ar gyfer Cyhoeddiadau Ar-lein 9

Atodiad C: Cynnwys Ar-lein i'w Gyhoeddi 12

Atodiad D: Asesiad Effaith – Cyhoeddiadau Ar-lein y DU sydd ar gael yn rhad ac am ddim a heb gyfyngiad ar fynediad 17

Atodiad E: Manylion Pellach ar Diriogaethedd 35

Atodiad F: Manylion Pellach ar y Broses Gasglu 36

Atodiad G: Holiadur 38

Pennod 1: Gwybodaeth Gyffredinol

1.1. Pwrpas yr adneuon cyfreithiol yw sicrhau y cesglir yr hyn mae'r genedl yn cyhoeddi (ac felly ei chofnod deallusol a threftadaeth gyhoeddedig yn y dyfodol) yn systematig, ac mor gynhwysfawr â phosibl, er mwyn diogelu'r deunydd ar gyfer cenhedloedd i ddod a, gydag ambell eithriad pwysig (a sefydlir yn hwyrach yn y ddogfen hon), i'w darparu i ddarllenwyr yn y llyfrgelloedd[1] a ddiffinnir yn y Ddeddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol 2003 (Deddf 2003). Mae'r system nifer o gannoedd o flynyddoedd oed, wedi ei sefydlu gan statud ers 1662, ac mae wedi bod yn elfen hanfodol o ran cadwraeth a darparu cofnod cyhoeddedig o'r cenedlaethau blaenorol ar gyfer darllenwyr heddiw ac yn y dyfodol.

1.2 Fe ailddatganodd Deddf 2003[2] ddarpariaethau presennol ar gyfer adneuon cyhoeddiadau a argraffwyd a chreu fframwaith o ddeddfwriaeth ble gellid gwneud rheoliadau ar gyfer adneuo cyhoeddiadau electronig ac eraill na argraffwyd. Sefydlwyd y Panel Cynghori Adnau Cyfreithiol (LDAP), corff cyhoeddus anadrannol annibynnol, ym Medi 2005 i weithio ar hyd braich o'r Llywodraeth ac i'w cynghori ar weithredu'r Ddeddf ac i wneud argymhellion ar yr opsiynau rheoliadol ar gyfer adneuo cyhoeddiadau heb eu hargraffu.

1.3 Mae'r cynigion hyn yn cwmpasu adneuo cyhoeddiadau heb eu hargraffu'r Deyrnas Unedig ar ficroffilm a chyfrwng electronig all-lein a Chyhoeddiadau Ar-lein y DU, sydd ar gael yn rhad ac am ddim heb gyfyngiad ar fynediad.

1.4 Bydd cynnig arall yn cael ei gynhyrchu ar wahân ar Gyhoeddiadau Ar-lein Masnachol ac wedi eu Diogelu y DU yn dilyn argymhellion pellach gan LDAP.

[1] Y Llyfrgell Brydeinig; Llyfrgell Genedlaethol yr Alban; Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Llyfrgell Bodleian, Rhydychen; Llyfrgell y Brifysgol, Caergrawnt; a Llyfrgell Trinity College, Dulyn

[2] = Gweler: http://www.opsi.gov.uk/acts/acts2003/ukpga_20030028_en_1

Pennod 2: Pwrpas

2.1 Pwrpas y ddogfen hon yw cyflwyno'r argymhellion a ddarparwyd gan LDAP i'r Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer DCMS ar adneuo cyfreithiol o ddeunydd heb ei argraffu ar gyfer ymgynghoriad – yn benodol Cyhoeddiadau All-lein a Microffilm y DU (Atodiad A) a Chyhoeddiadau Ar-lein y DU (Atodiad B i F), sydd ar gael yn rhad ac am ddim a heb gyfyngiad ar fynediad gyda'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol[3] (y Llyfrgelloedd).

2.2 Rydym yn ceisio'ch barn ar bob agwedd o'r argymhellion a hefyd wedi gosod ambell gwestiwn penodol y byddem yn croesawu eich atebion arnynt (Atodiad G).

2.3 Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, ac ymgynghori pellach ar fanylion y rheoliadau fel bo'n briodol, ein hamcan yw cyflwyno deddfwriaeth eilaidd gadarnhaol i'r Senedd a fydd yn arwain at reoliadau ar gyfer cyhoeddwyr cyhoeddiadau heb eu hargraffu perthnasol i adneuo un copi neu fwy gyda'r Llyfrgelloedd, fel y rhestrir yn fanwl yn y darpariaethau canlynol.

2.4 Bydd y cyfnod ymgynghori yn parhau am 12 wythnos o 8 Rhagfyr hyd 1 Mawrth 2010.

2.5 Ymatebwch cyn y dyddiad cau os gwelwch yn dda, gan ddefnyddio'r holiadur yn Atodiad G a'i anfon at deposits.consultation@culture.gsi.gov.uk. Os nad oes gennych fynediad at e-bost, ysgrifennwch at:

Frances Love
Tîm Llyfrgelloedd ac Archifau
Culture Directorate
2-4 Cockspur Street
Llundain SW1Y 5DH

2.6. Ar gyfer ymholiadau ynghylch y broses (ymdriniaeth) ymgynghori yn unig, cysylltwch ag Uned Meithrin Perthynas a Chydnabyddiaeth o'r Cyhoedd DCMS (PERU) yn y cyfeiriad uchod neu anfon neges e-bost yn defnyddio'r ffurflen yn www.culture.gov.uk/contact_us gan roi 'Cynnig ar Gasglu a Chadwraeth Cyhoeddiadau All-lein a Microffilm y DU, sydd ar gael yn rhad ac am ddim a heb gyfyngiad ar fynediad'.

2.7. Bydd copïau o'r ymatebion yn cael eu cyhoeddi wedi dyddiad cau'r ymgynghoriad ar wefan yr Adran: www.culture.gov.uk

2.8 Gellir cyhoeddi neu ddatgelu unrhyw wybodaeth a ddarparir mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn, yn cynnwys gwybodaeth bersonol, yn unol â chyfundrefnau mynediad i wybodaeth (yn bennaf Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA), y Ddeddf Diogelu Data 1998 (DPA) a'r Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004). Os ydych am i'r wybodaeth a ddarparwch aros yn gyfrinachol, dylech fod yn ymwybodol fod yna Gôd Ymarfer dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau cyhoeddus gydymffurfio ag o ac sy'n delio, ymysg pethau eraill, â rhwymedigaethau cyfrinachedd. O ganlyniad, byddai'n ddefnyddiol pe gallech esbonio i ni pam yr ydych yn ystyried bod yr wybodaeth yr ydych wedi darparu i ni yn gyfrinachol. Os byddwn yn derbyn cais am ddatgeliad o'r wybodaeth, byddwn yn cymryd ystyriaeth lawn o'ch esboniad, ond ni allwn roi sicrwydd y gellir cynnal

[3] Y Llyfrgell Brydeinig; Llyfrgell Genedlaethol yr Alban; Llyfrgell Genedlaethol Cymru; Llyfrgell Bodleian, Rhydychen; Llyfrgell y Brifysgol, Caergrawnt; a Llyfrgell Trinity College, Dulyn.

cyfrinachedd dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhyrchir gan eich system TG, ynddo'i hun, i fod yn rhwymol i'r Adran.

2.9 Bydd yr Adran yn prosesu eich data personol yn unol â'r Ddeddf Diogelu Data a, gan amlaf, bydd hyn yn golygu na ddatgelir eich data personol i drydedd blaid.

2.10 Mae'r ymgynghoriad wedi ei lywio gan Gôd Ymarfer y Llywodraeth ar Ymgynghori sydd ar gael o: http://www.berr.gov.uk/whatwedo/bre/code/page46954.html

Atodiad A: Cynigion ar gyfer Cyhoeddiadau All-lein a Microffilm

Cyflwyniad

3.1 Sefydlwyd LDAP ym Medi 2005 i gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar weithrediad Deddf 2003 ac i wneud argymhellion. Maent wedi gweithio ar hyd braich o'r Llywodraeth a datblygu eu rhaglen waith eu hunain yn canolbwyntio ar dri maes o ddeunydd heb eu hargraffu ar gyfer casglu a chadwraeth:

a. Cyhoeddiadau All-lein a Microffilm y DU;

b. Cyhoeddiadau Ar-lein y DU, yn rhad ac am ddim a heb gyfyngiad ar fynediad;

c. Cyhoeddiadau Masnachol ac wedi eu Diogelu Ar-lein y DU.

3.2 Edrycha'r bennod hon ar argymhellion LDAP ar gyfer Cyhoeddiadau All-lein a Microffilm.

Argymhellion LDAP

3.3 Ar gyfer Cyhoeddiadau All-lein a Microffilm, fe ystyriodd LDAP bedwar opsiwn:

Opsiwn 1: Archifo gan y Cyhoeddwr

Opsiwn 2: Côd Ymarfer Gwirfoddol Heb ei Reoleiddio, dim ceisiadau gweithredol gan lyfrgelloedd

Opsiwn 3: Cynllun Gwirfoddol Hunanreoleiddiol, gyda cheisiadau gweithredol gan lyfrgelloedd (argymhellir)

Opsiwn 4: Rheoliadau statudol.

Opsiwn 1

3.4 **Archifo gan y Cyhoeddwr.** Dan yr opsiwn hwn, ni fyddai'r llyfrgelloedd yn ceisio creu archif ganolog, a byddai'r genedl yn gwbl ddibynnol ar y sector preifat. Byddai cyhoeddwyr yn cadw copïau o'u cyhoeddiadau eu hunain i'r perwyl penodol o archifo, gydag amrywiol drefniadau mynediad a chost, yn arwain at nifer o archifau tu ôl i rwystrau masnachol lluosog (nid yw hyn yn annhebyg iawn i arfer presennol cyhoeddwyr o gynnal ôl rifynnau neu archifau ar-lein).

Opsiwn 2

3.5 **Côd Ymarfer Gwirfoddol Heb ei Reoleiddio.** Yn 2000, fe luniodd cynrychiolwyr o'r Llyfrgelloedd Adneuon Cyfreithiol a Chymdeithasau Masnach y diwydiant cyhoeddi Gôd Ymarfer ar gyfer Adneuon Gwirfoddol o Gyhoeddiadau Microffilm ac All-lein. Fe anogodd hyn y cyhoeddwyr i adneuo gyda Llyfrgelloedd; fodd bynnag, gallent ddewis p'un ai a sut i adneuo. Dan yr opsiwn hwn, byddai'r Côd yn dod yn un parhaol, gan annog cyhoeddwyr i adneuo cyhoeddiadau all-lein a microffilm. Fodd bynnag, ni fyddai unrhyw lywodraethu na chefnogaeth atodol gan gyrff y diwydiant ac eithrio hyrwyddo'r Côd ei hun. Yn ogystal, ni fyddai'r Llyfrgelloedd yn nodi na gofyn yn weithredol am gyhoeddiadau.

Opsiwn 3

3.6 **Cynllun Gwirfoddol Hunanreoleiddiol, gyda cheisiadau gweithredol gan Lyfrgelloedd**. Byddai'r opsiwn hwn yn ychwanegiad at y Côd Gwirfoddol uchod trwy sefydlu cytundeb ffurfiol, parhaus a strwythur llywodraethu trwy LDAP, i gynnwys Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a lofnodwyd gan Lyfrgelloedd a chyhoeddwyr, cynllun monitro ac adrodd blynyddol, adolygiadau pum mlynedd o effeithiolrwydd y cynllun ac o'r duedd yn y nifer o gyhoeddiadau perthnasol. Byddai cynrychiolwyr Cymdeithasau Masnach yn annog cyhoeddwyr i adneuo; byddai Llyfrgelloedd yn nodi cyhoeddiadau perthnasol ac yn gwneud cais adneuo pan fo angen.

Opsiwn 4

3.7 **Rheoliadau statudol**. Byddai rheoleiddio gan Lywodraeth, dan y Ddeddf Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol 2003, yn gorfodi cyhoeddwyr i adneuo un copi, yn rhad ac am ddim, gyda'r Llyfrgell Brydeinig ac, ar gais, hyd at bum copi atodol ar gyfer y llyfrgelloedd sy'n weddill, ar yr un sail ag sydd eisoes yn berthnasol i gyhoeddiadau a argraffwyd. Byddai gan y llyfrgelloedd yr hawl (ond heb unrhyw orfodiad cyfreithiol arnynt) i nodi cyhoeddiadau perthnasol nad ydynt eisoes wedi eu hadneuo ac i'w hawlio gan y cyhoeddwyr.

Cynigion y Llywodraeth

3.8 Rydym wedi ystyried y cynigion manwl a ddarparwyd gan LDAP ac yn fodlon derbyn eu hargymhelliad o **Gynllun Gwirfoddol Hunanreoleiddiol, gyda cheisiadau gweithredol gan Lyfrgelloedd.**

3.9 Rydym yn cadw'r hawl i fonitro'r cynllun i sicrhau y cesglir allbwn cyhoeddedig y genedl (ac felly hefyd ei chofnod deallusol a threftadaeth gyhoeddedig ar gyfer y dyfodol) yn systematig, ac mewn modd mor gynhwysfawr â phosibl. Os bydd yr angen yn codi, byddwn yn rheoleiddio pan fydd yn briodol dan y grymoedd sydd ar gael i ni yn Neddf 2003.

3.10 Felly nid ydym yn chwilio am unrhyw ymatebion ffurfiol ar y cynnig hwn.

Atodiad B: Cynigion ar gyfer Cyhoeddiadau Ar-lein

Cyflwyniad

4.1 Mae'r cynigion hyn yn cwmpasu Cyhoeddiadau Ar-lein y DU sydd ar gael yn rhad ac am ddim a heb gyfyngiad ar fynediad.

4.2 **Nid ydynt** yn cynnwys Cyhoeddiadau Ar-lein Masnachol na Wedi'i Diogelu'r DU.

Argymhellion LDAP

4.3 Ar gyfer cyhoeddiadau ar-lein fe ystyriodd LDAP dri opsiwn:

Opsiwn 1: Cynaeafu ac Archifo Llyfrgell Adneuo cyfreithiol yn seiliedig ar Ganiatâd

Opsiwn 2: Cynaeafu ac Archifo Llyfrgell Adneuo cyfreithiol yn seiliedig ar reoleiddio (Argymhellir)

Opsiwn 3: Gadael Archifo i'r Farchnad

Opsiwn 1

4.4 **Cynaeafu ac Archifo Llyfrgelloedd Adneuo cyfreithiol yn seiliedig ar Ganiatâd**. Gellir ystyried yr opsiwn hwn fel un sy'n cyfateb i gôd gwirfoddol ar gyfer adneuo, gan na fydd yn amodol i reoleiddio ond ei fod yn cymryd yn ganiataol y bydd Llyfrgelloedd adneuo cyfreithiol yn cynaeafu ('tynnu') deunydd, yn hytrach na gosod unrhyw ddyletswydd neu anogaeth ar gyhoeddwyr i adneuo. Felly mae prif fyrdwn gweithgaredd yn nwylo Llyfrgelloedd i wneud copïau rheolaidd o wefannau a dogfennau, yna eu porthi i archif i'w cadw. Fodd bynnag, dim ond wedi cael caniatâd hawlfraint ysgrifenedig gan y cyhoeddwyr neu berchnogion y deunydd all Llyfrgelloedd wneud hyn; ac wrth ymateb i'r ceisiadau hyn, rhaid i gyhoeddwyr ar-lein roi caniatâd ar ran deiliaid hawliau trydydd parti.

Opsiwn 2

4.5 **Cynaeafu ac Archifo Llyfrgelloedd Adneuon cyfreithiol yn seiliedig ar Reoleiddio.** Mae'r opsiwn hwn yn rhagdybio y bydd llyfrgelloedd, neu asiantau ar eu rhan, yn mynd ati i gynaeafu ('tynnu') deunydd, yn hytrach na gosod unrhyw ddyletswydd neu anogaeth ar gyhoeddwyr i adneuo. Felly mae prif fyrdwn gweithgaredd yn nwylo Llyfrgelloedd i wneud copïau rheolaidd o gyhoeddiadau a dogfennau sydd ar gael am ddim ar-lein, yna eu porthi i archif. Fodd bynnag, byddai rheoleiddio yn caniatáu Llyfrgelloedd i wneud hynny heb fod angen cysylltu â chyhoeddwyr neu berchnogion y deunydd.

Opsiwn 3

4.6 **Gadael Archifo i'r Farchnad.** Mae'r opsiwn hwn yn cynnig peidio cael menter ganolog, sector cyhoeddus, ac y dylid gadael gwaith archifo i'r sector preifat a grymoedd y farchnad. Ymhellach, ni fyddai Llyfrgelloedd yn mynd at i gynaeafu neu adeiladu archif genedlaethol ar gyfer deunydd ar-lein sydd ar gael yn rhydd. Gall cyhoeddwyr unigol gysylltu â Llyfrgell i archifo deunydd ar eu rhan; byddai hyn yn amodol i drafodaethau ar wahân a dadansoddiad cost a budd ar gyfer yr amgylchiadau penodol.

Cwestiwn 1: Beth yw'ch barn ar yr opsiynau dan ystyriaeth ar gyfer y cynnwys hwn?

Cwestiwn 2: A ddylid ystyried unrhyw opsiynau eraill? Os felly, beth ydynt?

Dadansoddiad LDAP

4.7 Cyfran fechan iawn o gyhoeddiadau ar-lein sydd ar gael yn rhydd fyddai cynaeafu seiliedig ar ganiatâd (Opsiwn Un) yn cipio. Yn ogystal, byddai'r gost yr uned llawer uwch ar gyfer cyhoeddwyr a Llyfrgelloedd i greu casgliad sydd ymhell o fod yn gynhwysfawr. Dim ond mewn 30% o achosion y llwyddir i sicrhau caniatâd (yn seiliedig ar ystadegau UKWAC).

4.8 Mae gadael archifo i'r farchnad (Opsiwn Tri) yn ei gwneud yn amhosibl darparu casgliad cynhwysfawr neu sydd ar gael yn rhydd. Er bod rhai cyhoeddwyr proffesiynol yn archifo eu deunydd eu hunain, awgryma tystiolaeth nad yw'r mwyafrif helaeth o gyhoeddwyr unigol cyhoeddiadau ar-lein sydd ar gael yn rhydd o fewn parth y DU yn gwneud. Felly bydd cyfran sylweddol o allbwn diwylliannol a deallusol y DU wedi ei golli am byth.

4.9 Argymhella LDAP Gynaeafu ac Archifo yn seiliedig ar Reoleiddio (Opsiwn Dau) ar gyfer adneuo cyhoeddiadau sydd ar gael yn rhydd ar-lein, i alluogi Llyfrgelloedd i gasglu a gwarchod cyhoeddiadau fel y diffinnir yn yr Argymhelliad, a'u darparu yn unol â Deddf 2003. Mae'r opsiwn adneuo hwn yn diogelu'r manteision cynhenid o gadw archif gynhwysfawr o dreftadaeth ddeallusol a diwylliannol ar-lein y DU ar gyfer cenedlaethau i ddod (amcangyfrifir y gellid cipio ac archifo cwmpas o 79% o ddeunydd yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael), am bris hydrin a chymesur, nid yn unig ar gyfer cyhoeddwyr a llyfrgelloedd ond hefyd ar gyfer y cyhoedd.

Cwestiwn 3: Ydych chi'n cytuno gyda'r dadansoddiad o'r opsiynau hyn? Esboniwch pam.

4.10 **Cyfradd Adneuo:** Mae'r nifer helaeth o gyhoeddiadau sydd ar gael yn rhydd ar-lein a'r gyfradd cynnydd disgwyliedig (tua 15% y flwyddyn) yn cyflwyno her sylweddol o ran creu casgliad cynhwysfawr yn y modd mwyaf effeithiol posibl. Mae cynaeafu yn darparu'r datrysiad mwyaf effeithiol ac amserol ar gyfer adneuo cyhoeddiadau yn y categori hwn: mae cynaeafu yn seiliedig ar reoliadau yn sicrhau y gellir yn benodol gasglu cymaint â phosibl i adeiladu'r casgliad mwyaf cynhwysfawr ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Cwestiwn 4: Ydych chi'n cytuno bod cynaeafu yn darparu'r datrysiad mwyaf effeithiol ac amserol ar gyfer adneuo cyhoeddiadau yn y categori hwn? Esboniwch pam.

4.11 **Cymesuredd:** Mae rheoleiddio yn ymateb priodol i'r nifer enfawr o gyhoeddwyr a chyhoeddiadau yn y categori hwn. Dyma'r dull mwyaf effeithiol o gasglu ar gyfer y Llyfrgelloedd ac nid yw'n gosod unrhyw faich ariannol na gweinyddol uniongyrchol ar y cyhoeddwyr.

Cwestiwn 5: Ydych chi'n cytuno mai rheoleiddio yw'r dull mwyaf effeithiol o gasglu ar gyfer y Llyfrgelloedd ac nad yw'n gosod unrhyw faich ariannol na gweinyddol uniongyrchol ar y cyhoeddwyr? Esboniwch pam.

4.12 **Gweithgareddau a Seilwaith Cynaeafu Presennol:** Er nad yw Llyfrgelloedd wedi gallu cynaeafu'n helaeth ledled parth cyntaf y DU hyd yn hyn, mae cryn dipyn o'r seilwaith ac arbenigedd technegol fyddai angen arnynt eisoes wedi ei sefydlu. Mae ganddynt brofiad ymarferol o gynaeafu seiliedig ar ganiatâd ar gyfer Consortiwm Archifo'r We'r DU. Yn ogystal, mae'r Consortiwm Rhyngwladol Cadwraeth y Rhyngrwyd (IIPC), y mae'r Llyfrgell Brydeinig a Llyfrgell Genedlaethol yr Alban (NLS) yn aelodau ohoni, yn datblygu arfau, seilwaith a pholisïau i daclo'r heriau casglu a gwarchod yn rhyngwladol. Ymhellach, bydd gwybodaeth mae Llyfrgelloedd cenedlaethol eraill sydd eisoes yn cyflawni cynaeafu ar lefel parth (e.e. yn Ffrainc, Denmarc, Seland Newydd ac Awstralia) wedi casglu hefyd yn cynorthwyo ei weithrediad yn y DU. Yn wir, mae Llyfrgelloedd adneuo cyfreithiol y DU yn amcangyfrif y gallent ddechrau cynaeafu ar y sail hon, hyd at gwmpas o 80%, o fewn gweithdrefnau presennol ac o fewn cyfnod byr iawn.

4.13 **Atebolrwydd Sifil:** Er na all gael gwared ar bob risg posibl, byddai rheoleiddio'n diogelu cyhoeddwyr a Llyfrgelloedd rhag atebolrwydd sifil megis troseddau hawlfraint a difenwad.

Atodiad C: Cynnwys Ar-lein i'w Gyhoeddi

Diffinio'r We yn y DU: Cwmpas Cyhoeddiadau

5.1 Dim ond cyhoeddiadau sydd ar gael yn rhydd ar-lein mae'r Argymhelliad yn cyfeirio atynt, y gall Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol[4] eu cynaeafu neu gasglu heb unrhyw ofyniad am weithredu gan gyhoeddwyr (adlewyrchiad fod y cyhoeddiadau ar gael i'r cyhoedd yn rhad ac am ddim ac yn hygyrch heb gyfyngiad). Gallai cyfyngiadau a fyddai'n diddymu cyhoeddiadau o gwmpas y cynigion hyn gynnwys ystod hunaniaeth, dilysiad/awdurdodiad, cofrestriad, tanysgrifiad a chyfeiriad Protocol Rhyngrwyd (IP)[5]. Dylid caniatáu deunydd sydd angen cydymffurfiad gyda ffurfioldeb technegol sylfaenol megis lawrlwytho 'cwcis', ar yr amod nad yw hyn yn galw am unrhyw ymyrraeth weithredol (dynol) gan y cyhoeddwr na pherchennog y wefan.

5.2 Nid yw'r cyhoeddiadau ar-lein y bwriedir i'r Argymhelliad hwn fod yn berthnasol iddynt yn cynnwys:

- Safleoedd tu allan i'r DU (gweler Tiriogaethedd isod)
- Cynnwys y codir tâl amdano/cynnwys masnachol
- Safleoedd gyda rhwystrau technegol
- Trafodion wedi'i gwarchod
- Parthau i aelodau'n unig ar safleoedd cyhoeddus
- Mewnrwydi preifat a chynnwys gyda chyfyngiad mynediad
- Recordiadau sain a ffilm ble mae gwaith o'r fath yn unig neu brif bwrpas y cynnwys neu ble mae unrhyw ddeunydd arall yn fân beth (e.e. 'Radio Player' y BBC, unrhyw fersiynau cyfatebol o Napster, YouTube ac ati, a safleoedd yn cynnig tôn ffôn neu ffilmiau a rhaglenni wedi eu llifo gan ddarlledwyr).

Cwestiwn 6: A ydych chi'n cytuno bod hyn yn ddiffiniad priodol ar gyfer y mathau o gyhoeddiadau y dylid eu cynnwys yng nghwmpas y rheoliadau? Esboniwch pam. A ddylid cynnwys unrhyw beth arall yn y diffiniad hwn? A ddylid eithrio unrhyw beth o'r diffiniad hwn?

Diffinio'r Tiriogaethedd y DU

5.3 Mae cynaeafu, ble cesglir cyhoeddiadau ar-lein yn defnyddio meddalwedd sy'n hwyluso eu caglu ac archifo, yn darparu dull syml o adneuo detholiad a nifer mor eang o gyhoeddiadau. Y cam cyntaf o ran cynaeafu yw diffinio'r paramedrau ar gyfer casglu a'r cysylltiadau angenrheidiol i'r DU. Mae'r diffiniad hwn hefyd yn ofyniad i Adran 1 Deddf 2003.

[4] I berwyl y papur hwn, mae 'Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol' neu 'Llyfrgelloedd' yn berthnasol i bob un o'r chwe Llyfrgell Adneuo Cyfreithiol a enwir yn y papur Argymhelliad hwn: Y Llyfrgell Brydeinig, Llyfrgell Genedlaethol yr Alban, Llyfrgell Genedlaethol Cymru, a Llyfrgelloedd Prifysgolion Caergrawnt, Rhydychen, a Trinity College, Dulyn.

[5] Ble galluogir mynediad ar gyfer defnyddwyr o fewn ystod cyfeiriad IP penodol yn unig.

5.4 Wrth gyflawni'r cynigion hyn, y meini prawf tiriogaeth a gynigir ar gyfer cyhoeddiadau sy'n berthnasol i'r Argymhelliad hwn yw:

- Y dylai Cyhoeddwyr fod wedi eu lleoli yn y DU neu fod â chyfeiriad yn y DU (corfforol neu electronig);
- Dylai cyhoeddiadau gael eu cyhoeddi'n gyfreithiol neu eu darparu gan neu ar ran y cyhoeddwr hwnnw o gyfeiriad yn y DU; a
- Dylai cyhoeddiadau fod ar gael i'r cyhoedd.

Ystyrir fod y meini prawf canlynol yn berthnasol i sefydlu man cyhoeddi ac, felly, y perthnasedd posibl i unrhyw gynaeafu a gymeradwyir i'r perwyl o adneuo cyfreithiol, sef y safle y cynaeafir y cyhoeddiad ohono:

- gydag enw parth y DU
- yn berthnasol i unigolion neu sefydliadau wedi eu lleoli yn y DU sy'n defnyddio enwau parth eraill, megis .org, .com, .net ac ati neu eraill; ac
- y gellir arddangos, os yw'n gyhoeddiad estron, ei fod ar gael gan gyhoeddwr wedi ei leoli yn y DU.

5.5 Mae eithriadau i'r diffiniad hwn yn cynnwys cyhoeddiadau:

- heb unrhyw gysylltiad i'r DU[6]; ac
- yn cynnwys recordiadau sain neu ffilm yn bennaf (gweler Act s1 (5) a, b).

5.6 Ble mae tiriogaethedd yn sefydlu paramedrau'r parth i'w gynaeafu, mae dadansoddiad o dwf a maint y parth yn sefydlu maint y gwaith a rhywfaint o'r tybiaethau allweddol sy'n sylfaen i gyfrifo'r costau.

5.7 Ceir rhagor o wybodaeth ar y mater hwn yn Atodiad E.

Cwestiwn 7: A ydych chi'n cytuno gyda'r diffiniad o diriogaethedd y we yn y DU? Esboniwch pam. A ddylid cynnwys unrhyw beth arall yn y diffiniad hwn? A ddylid eithrio unrhyw beth o'r diffiniad hwn?

Parth y DU[7]

5.8 Mae diffiniad y categori a rheolau tiriogaethedd yn pennu beth ellir ei gasglu. O fewn y rhain, mae'r model a ddefnyddir i gyfrifo costau ar gyfer cynaeafu yn cymryd yn ganiataol bod gofod y we'r DU wedi ei ddiffinio fel pob parth .UK a gofrestrwyd gan Nominet (6.1 miliwn yng nghanol 2007) ac oddeutu 50,000 o barthau eraill y gellir eu hadnabod yn rhwydd fel rhai a gyhoeddir yn y DU. Gweler tybiaethau costau allweddol Llyfrgelloedd ar gyfer model costau a rhagor o wybodaeth am dybiaethau (Atodiad D).

5.9 Amcangyfrifir y bydd y niferoedd yn parhau i dyfu 17% y flwyddyn tan 2011, ac yna 15% hyd at 2016. Fodd bynnag, mae 35% o'r parthau yn anweithredol, h.y. wedi eu cofrestru ond nid ydynt yn fyw, neu ble gellir 'dad-ddyblygu' cynnwys wedi cynaeafu am y tro cyntaf. Mae 25% arall yn bennaf yn 'we ddofn' neu'n gyhoeddiadau wedi'i diogelu tu allan i gwmpas y categori hwn. Ar y cyfan, amcangyfrifir fod y nifer o gyhoeddiadau ar-lein sydd o fewn y cwmpas yn 3.9 miliwn yn 2007 gan gynyddu i 14.6 miliwn yn 2016.

Cwestiwn 8: A ydych yn cytuno gyda'r dadansoddiad hwn o Barth Gwe'r DU? Esboniwch pam. Beth ydych chi'n credu fyddai effaith eich dadansoddiad?

[6] Mae LDAP yn adolygu ei ddefnydd o'r frawddeg hon o ran cyhoeddiadau ar-lein, gan y byddai ei gynnwys yma yn awgrymu y dylai cyhoeddiadau ar bynciau nad ydynt yn ymwneud â'r DU, ond gan awduron Prydeinig, gael eu heithrio o'r archif. Gallai nifer o asiantaethau gydag ymarferion defnyddiol hefyd gynorthwyo'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol i nodi cyhoeddiadau sy'n 'gysylltiedig i'r DU', megis Internet Watch a Nominet.

[7] Gweler nodiadau dan Dybiaethau Costau Allweddol Llyfrgelloedd am ffynonellau a ddefnyddiwyd i gefnogi'r tybiaethau ar gyfer twf a maint y parth.

Maint y Parth

5.10 Mae cyfartaledd maint gwefannau (ac felly'r nifer o weithiau hawlfraint a chyhoeddiadau sydd ynddynt) wedi bod yn tyfu'n sylweddol pob blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r model cost yn tybio bod y rhan fwyaf o gynnwys clywedol, un o brif achosion twf, tu allan i'r cwmpas, ac felly mae cyfradd twf y flwyddyn o 5% yn unig yn fwy priodol. Mae'r maint cyfartalog hefyd yn amrywio'n ddramatig, o tua phum megabeit ar gyfer 80% o safleoedd i un gigabeit ar gyfer 0.5% o safleoedd; mae'r model hwn yn tybio cyfartaledd pwysol o 25 megabeit.

Cynaeafu'r We[8]

5.11 Y dull a gynigir ar gyfer casglu a chadw cymaint o gyhoeddiadau yw i'w 'tynnu' (cynaeafu) o'r We. Mae cynaeafu yn broses awtomatig ble, trwy ddefnyddio meddalwedd arbennig, gall llyfrgelloedd gasglu cyhoeddiadau heb fod angen i gyhoeddwyr wneud dim. Mae'r costau, tystiolaeth effaith a chyfradd llwyddiant ar gyfer y math hwn o gynaeafu yn seiliedig ar gynllun prawf a weithredwyd gan Gonsortiwm Archifo'r We'r DU (UKWAC). Roedd y cynllun prawf, a ddechreuodd yn 2003 a pharhau am ddwy flynedd (a estynnwyd i Fedi 2007), yn cynnwys dethol i'w cadw ac archifo cyhoeddiadau ar-lein oedd ar gael yn rhydd. Hyd yn hyn mae'r Consortiwm wedi archifo dros 2,700 o gyhoeddiadau a dros 10,000 o enghreifftiau (gweler www.webarchive.org.uk).

5.12 Nid yw cynaeafu a gyflawnwyd fel rhan o reoleiddio yn gofyn am ganiatâd unigol cyhoeddwyr oherwydd bod eithriadau o atebolrwydd megis torri hawlfraint a difenwi wedi eu cynnwys yn Neddf 2003.

Cwestiwn 9: Sut ydych yn gweld system a arweinir gan Lyfrgell Adneuo o gynaeafu'r we yn rhyngweithio gyda dyletswydd ar ran cyhoeddwr i adneuo dan Ddeddf 2003?

Cwestiwn 10: Beth fyddai'r modd mwyaf effeithiol i Lyfrgelloedd Adneuo sicrhau yr adneuir corff cynhwysfawr o gynnwys cymwys?

Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol y DU yn Cynaeafu'r We

Costau Cynaeafu

5.13 Mae'r cynnig hwn yn cynnwys cynaeafu gan Lyfrgelloedd, ac felly nhw fydd yn bennaf gyfrifol am y costau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn gosod dyletswydd benodol ar lyfrgelloedd i gasglu nifer neu gyfran benodol o gyhoeddiadau'r DU. Mae'n ddyletswydd arnynt i gasglu yn unol â'u dyletswyddau adneuo cyfreithiol pennaf, i archifo cymaint o'r cofnod diwylliannol cenedlaethol â phosibl, a'i ddarparu ar gyfer ymchwil ac o fewn eu hadnoddau a chyllidebau. Felly, nid yw'r costau hyn yn oblygiadau uniongyrchol, llinell isaf (achos ac effaith) o bob opsiwn. Maent yn enghreifftiau o beth mae'r llyfrgelloedd yn credu y gellid ei gyflawni'n realistig o fewn cyfyngiadau eu cyllideb ac adnoddau ac wedi blaenoriaethu'r gweithgaredd a chategori o gyhoeddiadau yn erbyn nodau eraill eu casgliad.

5.14 Mae cost storio yn cynnwys gormodedd i sicrhau y cedwir yr archif yn ddiogel. Fodd bynnag, mae gwir gost storio pob terabeit wedi gostwng o dros 30% y flwyddyn yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf ac fe ddisgwylir iddo barhau i ostwng 25% y flwyddyn tan 2016.

5.15 Mae'r Llyfrgelloedd eisoes wedi cynllunio ac adeiladu dau seilwaith (ar wahân i rai elfennau), ac fe'i defnyddir i storio casgliadau digidol neu wedi digideiddio eraill yn ogystal â deunydd adneuo cyfreithiol. Felly, mae'r model costau hwn yn canolbwyntio ar y costau systemau cynyddol yn unig (yn cynnwys adnewyddu offer pob tair blynedd) a chostau staff fydd angen i gasglu a diogelu'r categori hwn o gyhoeddiad.

[8] Mae rhai rhanddeiliaid yn pryderu am helaethrwydd y cynaeafu a mynediad at gynnwys wedi ei gynaeafu, a byddwn yn edrych ar sut i drechu'r pryderon hyn yn ein cynigion polisi manwl.

5.16 Mae costau wedi eu dadansoddi dan benawdau dethol, cael caniatâd hawlfraint, cynaeafu, Sicrwydd Ansawdd, storio a chadwraeth, canfod adnoddau, rheoli hawliau digidol (DRM) a mynediad, a chostau eraill. Maent yn cynnwys cyflogau, pensiynau, Yswiriant Gwladol a chostau staff eraill, dyraniadau ar gyfer costau ehangach megis cefnogaeth TG a chostau, a dynodiadau ar gyfer costau cyffredinol (gweler Atodiad D am ragor o fanylion ar gostau a thybiaethau).

5.17 Mae'r ffaith fod gweithgareddau dethol a chaniatâd IPR bron wedi eu dileu yn sicrhau fod cynaeafu yn broses llawer mwy effeithiol na gofyn i bob cyhoeddwr adneuo eu deunydd eu hunain. Amcangyfrifir fod cyfanswm costau yn £215 y flwyddyn ar gyfer pob terabeit a archifir dros gyfnod o 10 mlynedd, er y byddai angen costau cyffredinol uwch a amcangyfrifir i fod yn £1,132,000 y flwyddyn ar gyfer y seilwaith, cynaeafu a storio, oherwydd bod y swm a gesglir yn fwy[9]. Gweler tybiaethau cost allweddol y Llyfrgelloedd yn Atodiad D.

5.18 Ceir rhagor o wybodaeth ar y trefniadau ymarferol yn Atodiad F.

Cwestiwn 11: A ydych yn cytuno gyda'r model costio hwn? Esboniwch pam. A oes angen ystyried neu eithrio costau eraill?

Cyhoeddwyr

5.19 Gellir priodoli'r anhawster o ran canfod costau cyhoeddwyr yn bennaf i'r diffiniad eang o 'cyhoeddwr' ar gyfer y categori hwn o gyhoeddiad, diffiniad sy'n wahanol iawn i gategorïau adneuo eraill. Yn draddodiadol, mae cyhoeddwyr yn grŵp sydd wedi eu diffinio a'u cynnwys yn dda yn ôl math a chynnwys cyhoeddiad, yn ogystal â chynllun busnes. Fodd bynnag, mae cyhoeddwr cynnwys sydd ar gael yn rhydd ar-lein yn amrywio o flogiwr unigol heb unrhyw ffrwd incwm i gorfforaethau rhyngwladol. Mae'r nifer enfawr o gyhoeddiadau a'r detholiad o fathau o gyhoeddwyr yn her sylweddol o ran pennu costau a manteision sy'n gweddu i unrhyw grŵp o gyhoeddwyr, heb sôn am y sbectrwm cyfan.

5.20 Ar ddechrau 2008, cynhaliodd y Panel Cynghori Adneuo Cyfreithiol arolwg o aelodau Cymdeithasau Masnach sy'n gyhoeddwyr, yn ogystal â chyhoeddwyr anfasnachol a fu'n cymryd rhan yn rhaglen brawf UKWAC. Rhoddodd yr arolwg wybodaeth i gyhoeddwyr am adneuo yn ogystal â gofyn iddynt am adborth ar gostau ac effeithiau eraill cynaeafu ac archifo. Roedd casgliadau'r arolwg fel a ganlyn:

- Roedd y mwyafrif o gyhoeddwyr masnachol ac anfasnachol a holwyd yn cefnogi cynaeafu yn seiliedig ar reoleiddio;
- Nid yn unig roeddynt yn credu y byddai'r math hwn o adneuo fwyaf effeithiol a lleiaf amharus i'w proses busnes, ond fe nodwyd hefyd na fyddai'n costio llawer iddynt.
- Fodd bynnag, ni allai cyhoeddwyr asesu beth fyddai'r gost iddynt o ran cynaeafu yn seiliedig ar ganiatâd.

5.21 Yn gyffredinol, roedd pryderon cyhoeddwyr o ran costau yn bennaf yn ymwneud ag incwm ac effaith posibl cynaeafu ar hyn, ac i ba raddau y gellid delio â'r pryderon hyn mewn amgylchedd masnachol a thechnolegol sy'n newid mor gyflym.

5.22 Gan nad yw cyhoeddwyr yn gwthio (adneuo) cyhoeddiadau i lyfrgelloedd yn yr ystyr traddodiadol, ymddengys nad oes gweithgaredd penodol y gellir cyfrifo costau ohonynt. Fodd bynnag, mae risgiau posibl a allai gael effaith arwyddocaol, os nad costau. Maent yn cynnwys diogelu hawlfraint cyhoeddiadau sydd ar gael yn rhydd ar-lein. Rydym yn aros am ganlyniadau Ymgynghoriad Eithriadau Hawlfraint Swyddfa Eiddo Deallusol y DU er mwyn gallu delio â'r pryder hwn mewn cynigion polisi manwl yn y dyfodol.

[9] Mae'r ffigwr hwn yn cynrychioli cyfanswm costau ledled Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol. Mae'n tybio y byddai darllenwyr yn unrhyw un o'r chwe llyfrgell adneuo cyfreithiol yn gallu cael mynediad at unrhyw ddeunydd a chyhoeddiadau electronig a gynaeefir ac a archifir gan seilweithiau BL/NLW/NLS. Ar hyn o bryd nid oes gan Lyfrgelloedd Prifysgolion Rhydychen, Caergrawnt na Trinity College unrhyw gynlluniau i gynaeafu i'r fath raddau, ond fe fyddent yn cadw'r hawl i wneud hynny.

5.23 Ymhellach, mae'r broses adneuo yn ychwanegu lefel o gymhlethdod ar gyfer cyhoeddwyr yn eu cytundebau gyda thrydydd parti, naill ai'n darparu cynnwys neu feddalwedd. Yn wir, mae pryderon ynghylch sicrhau hawliau parhaus ar gyfer data neu ddelweddau a ddarparwyd yn rhad ac am ddim ond ar sail cyfnod penodol, fel y mynegwyd yn yr Arolwg Cyhoeddwyr Masnachol. Er enghraifft, mae rhai safleoedd hyrwyddo yn darparu gwybodaeth busnes gwerthfawr ar sail cyfnod penodol o amser fel sampl o ddata i annog traffig i'r safle neu i werthu tanysgrifiad. Felly, efallai y bydd cyhoeddwyr yn agored i atebolrwydd megis IPR trydydd parti a thorri trwydded, yn ogystal â difenwad, dirmyg llys ac enllib.

Cwestiwn 12: A yw'r tybiaethau hyn yn adlewyrchu baich ariannol cyhoeddwyr yn ddigonol? A oes angen cynnwys neu eithrio unrhyw beth?

Atodiad D: Asesiad Effaith – Cyhoeddiadau Ar-lein y DU sydd ar gael yn rhad ac am ddim a heb gyfyngiad ar fynediad

Crynodeb: Ymyrraeth ac Opsiynau		
Adran/Asiantaeth: **Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon**	Teitl: **Asesiad Effaith o Gyhoeddiadau Ar-lein y DU sydd ar gael yn rhad ac am ddim a heb gyfyngiad ar fynediad**	
Cam: **Ymgynghoriad**	Fersiwn: **1.0**	Dyddiad: **30 Tachwedd 2009**
Cyhoeddiadau Cysylltiedig: **Amh**		
Ar gael i'w gweld neu lawrlwytho yn: **http://www.culture.gov.uk**		
Cyswllt ar gyfer ymholiadau: **www.culture.gov.uk/contact_us**		Ffôn:

Beth yw'r broblem dan ystyriaeth? Pam fod angen ymyrraeth gan y llywodraeth?

Pwrpas adneuo cyfreithiol yw sicrhau y cesglir allbwn cyhoeddedig y genedl (ac felly ei gofnod deallusol a threftadaeth gyhoeddedig at y dyfodol) yn systematig, ac mewn modd mor gynhwysfawr â phosibl, er mwyn gwarchod y deunydd i'w ddefnyddio gan genedlaethau'r dyfodol. Mae'r cynigion hyn yn cynnwys adneuo Cyhoeddiadau Ar-lein y Deyrnas Unedig, sydd ar gael yn rhad ac am ddim a heb gyfyngiad ar fynediad; ar hyn o bryd nid oes system ar gael i ganiatáu ar gyfer casglu'r cynnwys hwn.

Beth yw'r amcanion polisi ac effeithiau arfaethedig?

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwn, ac ymgynghori pellach ar fanylion y rheoliadau fel bo'n briodol, ein hamcan yw cyflwyno deddfwriaeth eilaidd gadarnhaol i'r Senedd a fydd yn arwain at reoliadau ar gyfer cyhoeddwyr cyhoeddiadau heb eu hargraffu perthnasol i adneuo un copi neu fwy gyda'r Llyfrgelloedd, fel y rhestrir yn fanwl yn y darpariaethau canlynol. Yr amcan yw gwarchod y deunydd ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Pa opsiynau polisi a ystyriwyd? Rhowch gyfiawnhad dros ffafrio opsiwn.

Sefydlwyd LDAP ym Medi 2005 i gynghori'r Ysgrifennydd Gwladol ar weithrediad Deddf 2003 ac i wneud argymhellion. Maent wedi gweithio ar hyd braich o Lywodraeth ac wedi cynhyrchu'r argymhellion hyn: Fe ystyriont dri opsiwn:

1. Cynaeafu yn Seiliedig ar Ganiatâd
2. Cynaeafu yn Seiliedig ar Reoleiddio
3. Gadael Archifo i'r Farchnad

Crynodeb: Ymyrraeth ac Opsiynau (parhad)

Pryd fydd y polisi yn cael ei adolygu i sefydlu'r costau a'r buddiannau gwirioneddol a chyflawniad yr effeithiau arfaethedig? Cyflawnir asesiad effaith llawn cyn cyflwyno rheoliadau.

Cymeradwyaeth Gweinidogol Ar Gyfer Asesiadau Effaith Cam Ymgynghori:

Rwyf wedi darllen yr Asesiad Effaith ac rwy'n fodlon, o ystyried y dystiolaeth sydd ar gael, ei fod yn cynrychioli barn resymol o gostau, buddiannau ac effaith tebygol yr opsiynau arweiniol.

Llofnodwyd gan y Gweinidog cyfrifol:



Dyddiad: **04/12/09**

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth

Opsiwn Polisi: 1	Disgrifiad: Cynaeafu ac Archifo seiliedig ar Ganiatâd Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol

COSTAU

COSTAU BLYNYDDOL

Unigryw (Trosiant) **Bl**

£

Cyfartaledd Cost Flynyddol (ag eithrio unigryw)

£496,959

Disgrifiad o raddfa **costau y pennwyd gwerth ariannol arnynt** y 'prif grwpiau a effeithiwyd. Cyfartaledd cost y flwyddyn i'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys costau technoleg, staffio, mynediad a chadwraeth.

Cyfanswm Cost (PV) **£4.13 miliwn**

Costau anariannol allweddol eraill gan y 'prif grwpiau a effeithir'

BUDDIANNAU

BUDDIANNAU BLYNYDDOL

Unigryw **Bl**

£

Cyfartaledd Buddiannau Blynyddol (ag eithrio unigryw)

£

Disgrifiad o raddfa **buddiannau allweddol y pennwyd gwerth ariannol arnynt** gan y 'prif grwpiau a effeithiwyd'

Cyfanswm Buddiannau (PV) **£**

Buddiannau eraill anariannol gan y 'prif grwpiau a effeithir'. Bydd rhywfaint o gadwraeth o dreftadaeth y genedl, ond nid mewn modd systematig. Amcangyfrifir mai dim ond hyd at 0.5% o'r deunydd sydd wedi ei gynnwys yn y cwmpas i'w gipio fydd wedi ei ganiatáu dan yr opsiwn hwn.

Tybiaethau/Sensitifeddau/Risgiau Allweddol

Sylfaen Pris	Cyfnod Amser	**Ystod Buddiannau Net** (NPV)	**MANTEISION NET** (Amcangyfrif Gorau NPV)
Blwyddyn **2009**	Blynyddoedd **10**	**£–4.13 miliwn**	**£–4.13 miliwn**

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth (parhad)

Beth yw cwmpas daearyddol y polisi/opsiwn?			Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon	
Pryd fydd y polisi'n cael ei weithredu?			I'w gadarnhau	
Pa sefydliad neu sefydliadau fydd yn gweithredu'r polisi?			Llyfrgell Brydeinig	
Beth yw cyfanswm cost flynyddol gorfodaeth ar gyfer y sefydliadau hyn?			£ Amh	
A yw gorfodaeth yn cydymffurfio ag egwyddorion Hampton?			Ydy	
A fydd gweithrediad yn mynd tu hwnt i isafswm gofynion yr UE?			Bydd	
Beth yw gwerth y mesur mantoli arfaethedig pob blwyddyn?			£	
Beth yw gwerth y newidiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr?			£	
A fydd y cynnig yn cael effaith arwyddocaol ar gystadleuaeth?			Na	
Cost flynyddol (£-£) fesul sefydliad (ag eithrio unigryw)	Micro	Bach	Canolig	Mawr
A oes unrhyw un o'r sefydliadau hyn wedi eu heithrio?	Na	Na	Amh	Amh

Effaith ar Feichiau Linell Sylfaen Gweinyddol (Prisiau 2005)		(Cynnydd – Gostyngiad)
Cynnydd o **£**	Gostyngiad o **£**	**Effaith Net £**

Allwedd:

Costau a buddiannau blynyddol

Pris cyson

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth

Opsiwn Polisi: 2	Disgrifiad: Cynaeafu ac Archifo Llyfrgell Adneuon cyfreithiol yn seiliedig ar Reoleiddio.

COSTAU

COSTAU BLYNYDDOL		Disgrifiad o raddfa **costau y pennwyd gwerth ariannol arnynt** y 'prif grwpiau a effeithiwyd'. Cyfartaledd cost y flwyddyn i'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol. Mae'r rhain yn cynnwys costau technoleg, staffio, mynediad a chadwraeth.	
Unigryw (Trosiant)	**Bl**		
£			
Cyfartaledd Cost Flynyddol (ag eithrio unigryw)			
£1,132,286		**Cyfanswm Cost** (PV)	**£9.42 miliwn**

Costau anariannol allweddol eraill gan y 'prif grwpiau a effeithir'

BUDDIANNAU

BUDDIANNAU BLYNYDDOL		Disgrifiad o raddfa **buddiannau allweddol y pennwyd gwerth ariannol arnynt** gan y 'prif grwpiau a effeithiwyd'	
Unigryw	**Bl**		
£			
Cyfartaledd Buddiannau Blynyddol (ag eithrio unigryw)			
£		**Cyfanswm Buddiannau** (PV)	**£**

Buddiannau anariannol eraill gan y 'prif grwpiau a effeithir' I sicrhau y cesglir allbwn cyhoeddedig y genedl (ac felly ei gofnod deallusol a threftadaeth gyhoeddedig at y dyfodol) yn systematig, ac mewn modd mor gynhwysfawr â phosibl, er mwyn gwarchod y deunydd i'w ddefnyddio gan genedlaethau'r dyfodol. Amcangyfrifir y bydd yr opsiwn hwn yn caniatáu cipio ac archifo hyd at 79% o'r deunydd o fewn y cwmpas ac o fewn adnoddau sydd ar gael.

Tybiaethau/Sensitifeddau/Risgiau Allweddol

Sylfaen Pris	Cyfnod Amser	**Ystod Buddiannau Net** (NPV)	**BUDDIANNAU NET** (Amcangyfrif Gorau NPV)
Blwyddyn **2009**	Blynyddoedd **10**	**£–9.42 miliwn**	**£–9.42 miliwn**

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth (parhad)

Beth yw cwmpas daearyddol y polisi/opsiwn?			Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon	
Pryd fydd y polisi'n cael ei weithredu?			I'w gadarnhau	
Pa sefydliad neu sefydliadau fydd yn gweithredu'r polisi?			Llyfrgell Brydeinig	
Beth yw cyfanswm cost flynyddol gorfodaeth ar gyfer y sefydliadau hyn?			£ Amh	
A yw gorfodaeth yn cydymffurfio ag egwyddorion Hampton?			Ydy	
A fydd gweithrediad yn mynd tu hwnt i isafswm gofynion yr UE?			Bydd	
Beth yw gwerth y mesur mantoli arfaethedig pob blwyddyn?			£	
Beth yw gwerth y newidiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr?			£	
A fydd y cynnig yn cael effaith arwyddocaol ar gystadleuaeth?			Na	
Cost flynyddol (£-£) fesul sefydliad (ag eithrio unigryw)	Micro	Bach	Canolig	Mawr
A oes unrhyw un o'r sefydliadau hyn wedi eu heithrio?	Na	Na	Amh	Amh

Effaith ar Feichiau Linell Sylfaen Gweinyddol (Prisiau 2005)		(Cynnydd – Gostyngiad)
Cynnydd o **£**	Gostyngiad o **£**	**Effaith Net £**

Allwedd:

Costau a buddiannau blynyddol

Presennol (Net)

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth (parhad)

Opsiwn Polisi: 3	Gadael Archifo i r Farchnad

COSTAU

COSTAU BLYNYDDOL		Disgrifiad a graddfa **costau y pennwyd gwerth ariannol arnynt** gan y 'prif grwpiau a effeithiwyd'. Nid oes unrhyw gost i Lyfrgelloedd gan mai'r cyhoeddwyr eu hunain sy'n llwyr gyfrifol am archifo'u deunydd. Ni fydd unrhyw orfodaeth arnynt i wneud, felly ni ellir cyfrifo'r gost.	
Unigryw (Trosiant)	**Bl**		
£			
Cyfartaledd Cost Flynyddol (ag eithrio unigryw)			
£0		**Cyfanswm Cost** (PV)	**£**

Costau anariannol allweddol eraill gan y 'prif grwpiau a effeithir'

BUDDIANNAU

BUDDIANNAU BLYNYDDOL		Disgrifiad o raddfa **buddiannau allweddol y pennwyd gwerth ariannol arnynt** gan y 'prif grwpiau a effeithiwyd'	
Unigryw	**Bl**		
£			
Cyfartaledd Buddiannau Blynyddol (ag eithrio unigryw)			
£		**Cyfanswm Buddiannau** (PV)	**£**

Buddiannau anariannol allweddol eraill gan y 'prif grwpiau a effeithir'. Er bod rhai cyhoeddwyr proffesiynol yn archifo eu deunydd eu hunain, awgryma'r holl dystiolaeth sydd ar gael nad yw'r mwyafrif helaeth o gyhoeddwyr unigol cyhoeddiadau ar-lein sydd ar gael yn rhydd o fewn parth y DU yn gwneud. Felly bydd cyfran sylweddol o allbwn diwylliannol a deallusol y DU wedi ei golli am byth.

Tybiaethau/Sensitifeddau/Risgiau Allweddol

Sylfaen Pris	Cyfnod Amser	**Ystod Buddiannau Net** (NPV)	**BUDDIANNAU NET** (Amcangyfrif Gorau NPV)
Blwyddyn **0**	Blynyddoedd	**£**	**£**

Crynodeb: Dadansoddiad a Thystiolaeth (parhad)				
Beth yw cwmpas daearyddol y polisi/opsiwn?			Y Deyrnas Unedig ac Iwerddon	
Pryd fydd y polisi'n cael ei weithredu?			I'w gadarnhau	
Pa sefydliad neu sefydliadau fydd yn gweithredu'r polisi?			Amh	
Beth yw cyfanswm cost flynyddol gorfodaeth ar gyfer y sefydliadau hyn?			£ Amh	
A yw gorfodaeth yn cydymffurfio ag egwyddorion Hampton?			Ydy	
A fydd gweithrediad yn mynd tu hwnt i isafswm gofynion yr UE?			Bydd/Na fydd	
Beth yw gwerth y mesur mantoli arfaethedig pob blwyddyn?			£	
Beth yw gwerth y newidiadau mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr?			£	
A fydd y cynnig yn cael effaith arwyddocaol ar gystadleuaeth?			Na	
Cost flynyddol (£-£) fesul sefydliad (ag eithrio unigryw)	Micro	Bach	Canolig	Mawr
A oes unrhyw un o'r sefydliadau hyn wedi eu heithrio?	Na	Na	Amh	Amh

Effaith ar Feichiau Linell Sylfaen Gweinyddol (Prisiau 2005)		(Cynnydd – Gostyngiad)
Cynnydd o **£**	Gostyngiad o **£**	**Effaith Net £**

Allwedd:

Costau a buddiannau blynyddol: Prisiau Cyson

Gwerth Presennol (Net)

Sylfaen Tystiolaeth (ar gyfer dalenni crynodeb)

6.1 Mae'r asesiad effaith hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd gan LDAP yn seiliedig ar eu hymchwil ar yr opsiynau ar gyfer adneuo cyfreithiol cyhoeddiadau ar-lein y DU, sydd ar gael yn rhad ac am ddim a heb gyfyngiad ar fynediad. Dim ond y dalenni crynodeb mae DCMS wedi cwblhau.

Opsiynau ar gyfer Adneuo: Crynodeb a Dadansoddiad

Crynodeb

6.2 Cytunodd LDAP ar ddau opsiwn posibl ar gyfer adneuo, yn cynnwys y dulliau gwirfoddol ac yn seiliedig ar reoleiddio. Yn ogystal, ystyriwyd archifo gan y cyhoeddwr, fel dewis amgen i gynlluniau adneuo.

Cynaeafu ac Archifo seiliedig ar Ganiatâd Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol (Opsiwn Un)

6.3 Gellir ystyried yr opsiwn hwn fel un sy'n cyfateb i gôd gwirfoddol ar gyfer adneuo, gan na fydd yn amodol i reoleiddio ond ei fod yn cymryd yn ganiataol y bydd Llyfrgelloedd adneuo cyfreithiol yn cynaeafu'n weithredol ('tynnu') deunydd, yn hytrach na gosod unrhyw ddyletswydd neu anogaeth ar gyhoeddwyr i adneuo. Felly mae prif fyrdwn gweithgaredd yn nwylo llyfrgelloedd i wneud copïau rheolaidd o wefannau a dogfennau, yna eu porthi i archif i'w cadw. Fodd bynnag, dim ond wedi cael caniatâd hawlfraint ysgrifenedig gan y cyhoeddwyr neu berchnogion y deunydd all llyfrgelloedd wneud hyn; ac wrth ymateb i'r ceisiadau hyn, rhaid i gyhoeddwyr ar-lein roi caniatâd ar ran deiliaid hawliau trydydd parti.

Cynaeafu ac Archifo seiliedig ar Ganiatâd Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol (Opsiwn Dau)

6.4 Mae'r opsiwn hwn yn rhagdybio y bydd llyfrgelloedd, neu asiantau ar eu rhan, yn mynd ati i gynaeafu'n weithredol ('tynnu') deunydd, yn hytrach na gosod unrhyw ddyletswydd neu anogaeth ar gyhoeddwyr i adneuo. Felly mae prif fyrdwn gweithgaredd yn nwylo Llyfrgelloedd i wneud copïau rheolaidd o gyhoeddiadau a dogfennau sydd ar gael am ddim ar-lein, yna eu porthi i archif. Fodd bynnag, byddai rheoleiddio yn caniatáu llyfrgelloedd i wneud hynny heb fod angen cysylltu â chyhoeddwyr neu berchnogion y deunydd.

6.5 Bydd rheoleiddio hefyd yn diogelu Llyfrgelloedd a chyhoeddwyr ar-lein, i raddau, rhag honiadau difenwi ac atebolrwydd tebyg. Fodd bynnag, i elwa o'r amddiffyniadau hyn, rhaid gweithredu holl amodau a rheoliadau Deddf 2003 fel y cyfyngir mynediad at ddeunydd a gynaeafwyd i eiddo llyfrgelloedd adneuo cyfreithiol yn unig. Mae rheoleiddio yn caniatáu'r llyfrgelloedd i gynaeafu'n fwy effeithiol, ond ni fydd yn gosod unrhyw ofyniad penodol arnynt ag eithrio dyletswydd 'rhesymol' i gasglu.

Gadael Archifo i'r Farchnad (Opsiwn Tri)

6.6 Mae'r opsiwn hwn yn cynnig peidio cael menter ganolog, sector cyhoeddus, ac y dylid gadael gwaith archifo i'r sector preifat a grymoedd y farchnad. Ymhellach, ni fyddai Llyfrgelloedd yn mynd ati i gynaeafu neu adeiladu archif genedlaethol ar gyfer deunydd ar-lein sydd ar gael yn rhydd. Gall cyhoeddwyr unigol gysylltu â llyfrgell i archifo deunydd ar eu rhan; byddai hyn yn amodol ar drafodaethau ar wahân a dadansoddiad cost a budd ar gyfer yr amgylchiadau penodol.

6.7 Ar gyfer pob opsiwn, mae'r buddiannau i randdeiliaid – yn cynnwys cyhoeddwyr, llyfrgelloedd a'r cyhoedd – wedi eu hasesu yn erbyn y costau gweinyddol cyffredinol. Yn ogystal, fe ystyriwyd effeithiau eraill, megis risgiau posibl. O'u hystyried ar y cyd, maent yn ffurfio sylfaen tystiolaeth ar gyfer pennu'r opsiwn mwyaf priodol ar gyfer adneuo.

Cwestiwn 13: Ydych chi'n cytuno gyda'r dadansoddiad o'r opsiynau hyn? Esboniwch pam.

Manteision Casgliad Cynhwysfawr

6.8 Mae Deddf 2003 yn cydnabod buddiannau casglu a gwarchod casgliad cynhwysfawr o gyhoeddiadau electronig y DU, yn cynnwys y rhai sydd ar-lein ac ar gael yn rhydd. Bydd casgliad cynhwysfawr, parhaol mewn lleoliad canolog ac yn hawdd i'w gyrchu ar gyfer rhanddeiliaid cyhoeddus megis ymchwilwyr, addysgwyr a myfyrwyr yn hybu ymchwil ac ysgolheictod y DU.

6.9 Asesodd LDAP i ba raddau yr oedd pob opsiwn yn cyflawni'r fantais hon:

1. Cynaeafu yn Seiliedig ar Ganiatâd (Opsiwn Un)	Dim ond mewn 30% o achosion y llwyddir i sicrhau caniatâd (yn seiliedig ar ystadegau UKWAC). Felly, o'r 4,500 o ddetholwyd, dim ond ar gyfer 1,350 y gellid cael caniatâd. Felly dim ond cyfran fechan iawn (hyd at tua 0.5%) o ddeunydd o fewn y cwmpas fydd yr archif yn cynrychioli, gan golli hyd at 99.4% o bosibl.
2. Cynaeafu yn Seiliedig ar Reoleiddio (Opsiwn Dau)	Mae rheoleiddio yn sicrhau casgliad mwy cynhwysfawr, gan nad oes angen caniatâd. Amcangyfrifir y bydd yn cipio ac archifo hyd at 79% o'r deunydd o fewn y cwmpas ac o fewn adnoddau sydd ar gael.
3. Gadael Archifo i'r Farchnad (Opsiwn Tri)	Er bod rhai cyhoeddwyr proffesiynol yn archifo eu deunydd eu hunain, awgryma'r holl dystiolaeth sydd ar gael nad yw'r mwyafrif helaeth o gyhoeddwyr unigol cyhoeddiadau ar-lein sydd ar gael yn rhydd o fewn parth y DU yn gwneud. Felly bydd cyfran sylweddol o allbwn diwylliannol a deallusol y DU wedi ei golli am byth.

Argaeledd i'r Cyhoedd

6.10 Rhaid i'r casgliad fod ar gael i genedlaethau o ymchwilwyr yn y dyfodol, neu ni fyddwn yn manteisio ohoni, a bydd costau i'r cyhoedd yn ogystal â Llyfrgelloedd a chyhoeddwyr.

6.11 Mae Opsiwn Un nid yn unig yn darparu'r cyhoeddiadau yn rhydd i'r cyhoedd yn eiddo'r Llyfrgelloedd adneuo cyfreithiol, ond mae ganddo hefyd y grym i'w darparu'n uniongyrchol i gyfrifiaduron y defnyddwyr. Fodd bynnag, er nad ydynt yn amodol i'r cyfyngiadau eiddo sy'n ofynnol dan Ddeddf 2003, gallai'r caniatâd a geir dan Opsiwn Un gynnwys cyfyngiadau ar fynediad gan y cyhoeddwyr unigol. Nid yn unig y gallai hyn arwain at gostau ychwanegol i lyfrgelloedd, ond gallai hefyd effeithio ar i ba raddau fydd gan ymchwilwyr ac eraill fynediad at gasgliad cynhwysfawr.

6.12 Mae Opsiwn Dau yn sicrhau argaeledd casgliad parhaol a chynhwysfawr, gan fod casglu ac archifo cyhoeddiadau yn amodol i ddeddfwriaeth. Fodd bynnag, mae'n gasgliad sy'n amodol i delerau Deddf 2003, yn cyfyngu ar ddarpariaeth mynediad o fewn eiddo'r Llyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol.

6.13 Gydag Opsiwn Tri, golyga ansicrwydd trefniadau mynediad a chostau i ymchwilwyr na ellir gwarantu argaeledd helaeth. Yn ogystal, ni all Opsiwn Tri sicrhau cadwraeth hirdymor archif, yn arbennig pan fydd cyhoeddwyr yn mynd allan o fusnes.

6.14 Yn olaf, gydag Opsiynau Un a Dau, byddai'r genedl yn debygol o fedi buddiannau economaidd o weithgaredd cysylltiedig â diddordeb rhyngwladol mewn casgliadau cenedlaethol cynhwysfawr, mewn lleoliad canolog. Yn arbennig yn achos Opsiwn Dau, ble byddai'r casgliad yn fwy cynhwysfawr, byddai'r archif o werth i ymchwilwyr tramor sydd â diddordeb yn y DU. Felly mae'n debygol o fod yn werth buddsoddi eu hamser a'u harian yn y DU ar gyfer gweithgareddau atodol yn ymwneud â'i ddefnydd fel adnodd, p'un a ydynt yn weithgareddau academaidd neu fusnes.

6.15 Er nad yw Opsiynau Un a Thri yn gosod unrhyw effaith rheoleiddio ar gyhoeddwyr a Llyfrgelloedd, er gwaethaf y cyfyngiad o ran eiddo, dim ond Opsiwn Dau all gyflawni nod cynllun adneuo, fel y'i diffinnir yn Neddf 2003: i ddarparu casgliad cynhwysfawr, sydd ar gael yn rhydd ac mewn lleoliad canolog, i genedlaethau i ddod.

Cwestiwn 14: A ydych yn cytuno gyda'r dadansoddiad ar ddarparu cynnwys i'r Llyfrgelloedd Adneuo? Esboniwch pam. Beth arall ddylid ei ystyried?

Oblygiadau Ariannol Adneuo

6.16 Rhaid mantoli'r manteision hyn yn erbyn costau gweinyddol ac eraill ar gyfer y prif randdeiliaid, h.y. Llyfrgelloedd a chyhoeddwyr yn arbennig.

6.17 Mae'r opsiynau cynaeafu ar gyfer adneuo yn gosod y rhan fwyaf, os nad yr holl, faich costau ar Lyfrgelloedd. Gan ddefnyddio'r model costau (gweler Tybiaethau Costau Allweddol Llyfrgelloedd, isod), sy'n farn realistig o beth ellid ei gyflawni o fewn cyfyngiadau'r adnoddau sydd ar gael, gellir cyfrifo costau ar gyfer pob un o'r Opsiynau:

Pob Llyfrgell Adneuo Cyfreithiol	1. Cynaeafu yn seiliedig ar ganiatâd	2. Cynaeafu yn seiliedig ar reoleiddio	3. Dibynnu ar y farchnad
Cyfartaledd cyfanswm cost y flwyddyn	£496,959	£1,132,286	£ Dim
Deunydd a gasglwyd wedi 10 mlynedd (budd)	77 Terabeitiau (0.5%)	5,263 Terabeitiau (79%)	0 Terabeitiau (0%)
Cost fesul terabeit	£6,476	£215	n/a

6.18 Mae cynaeafu seiliedig ar reoleiddio (Opsiwn Dau) yn darparu mwy o gyhoeddiadau am bris llai yr uned.

Cwestiwn 15: A ydych yn cytuno gyda'r model costio hwn? Esboniwch pam. Beth arall ddylid ei ystyried?

Costau ac Effeithiau eraill

6.19 Yn ogystal â chostau cynaeafu ar gyfer Llyfrgelloedd, mae pob Opsiwn yn gosod costau ac effeithiau eraill ar randdeiliaid.

6.20 Mae Opsiwn Un yn cynrychioli proses feichus er mwyn i Lyfrgelloedd a chyhoeddwyr gaffael ac ymateb i ganiatâd hawlfraint, ac mae hyn yn cyfyngu cryn dipyn ar nifer y gwefannau a faint o ddeunydd y gellir targedu. Ar gyfer Llyfrgelloedd, mae cost staff gweddol uchel yn gysylltiedig â nodi a chysylltu â chyhoeddwyr. Ar gyfer cyhoeddwyr, mae costau gweinyddol a chysylltiadau cyhoeddus uniongyrchol yn gysylltiedig ag ymateb i geisiadau gan lyfrgelloedd, o bosibl yn arwain at gostau uwch i gwsmeriaid.

6.21 Gan mai dim ond cyfran fechan o'r chwe miliwn neu fwy o gyhoeddiadau posibl mae cynaeafu seiliedig ar ganiatâd yn cynrychioli, mae angen i Lyfrgelloedd fod yn fwy dethol. Mae hyn yn ychwanegu costau ac yn cael effaith ar fanteision yr archif ar gyfer ymchwil yn y dyfodol – mae unrhyw benderfyniad o ran dethol yn seiliedig ar y farn bresennol o beth sy'n bwysig yn y presennol ac, hyd eithaf ein gwybodaeth, yn y dyfodol.

6.22 Mae ymateb i geisiadau caniatâd a cheisio caniatâd gan drydydd parti hefyd yn arwain at gostau gweinyddol uwch ar gyfer cyhoeddwyr, yn ogystal â chostau sy'n gysylltiedig â chysylltiadau cwsmeriaid a'r cyhoedd, a allai arwain at gynnydd mewn costau i ddefnyddwyr. Yn ôl yr arolwg cyhoeddwyr a gyflawnwyd gan LDAP roedd cyhoeddwyr yn cydnabod yn gyffredinol y byddai hyn yn broses gostus, yn arbennig os oedd angen prosesu nifer o geisiadau.

6.23 Ar gyfer Opsiwn Dau, cynaeafu yn seiliedig ar reoleiddio, gall y broses fod yn llawer mwy awtomatig (ac mae arfau yn parhau i gael eu datblygu i hwyluso'r broses) na gyda seiliedig ar ganiatâd, ond mae'r swm enfawr posibl o ddeunydd yn golygu costau prosesu a storio sylweddol uwch. Felly, rhaid i Lyfrgelloedd fantoli'r ddelfryd o gasglu'r holl ddeunydd sydd ar gael mewn dull awtomatig iawn yn erbyn eu cyfyngiadau ariannol a thechnegol.

6.24 Ond ni fydd rheoleiddio ynddo ei hun yn gosod unrhyw gostau uniongyrchol na phenodol ar Lyfrgelloedd, nac yn gofyn am unrhyw ymroddiad gan bwrs y wlad. Ar gyfer cyhoeddwyr, mae'r costau yn ymylol, gan nad oes rhaid iddynt brosesu caniatâd a 'gwthio deunydd' i'r llyfrgelloedd.

6.25 Gydag Opsiwn Tri, nid yw'r cyhoeddwyr hynny sy'n archifo yn dueddol o ddarparu eu harchifau i ymchwilwyr yn gyffredinol, neu efallai eu bod yn codi tâl am wneud. Os byddant yn eu darparu am ffi, gellid disgwyl y byddant yn adfer eu costau eu hunain o'r incwm.

6.26 Fodd bynnag, gyda'r Opsiwn hwn, mae baich costau yn lledaenu i gynnwys grwpiau rhanddeiliaid eraill, sef ymchwilwyr busnes ac academaidd; myfyrwyr; addysgwyr; a'r cyhoedd. Mae'n gosod cost uniongyrchol ar y cyhoedd, nid yn unig am ei fod yn methu sicrhau casgliad cynhwysfawr, ond hefyd oherwydd bod yr archifau wedi eu lledaenu ar draws ystod o gyhoeddwyr gyda threfniadau mynediad amrywiol. Er mwyn cael mynediad at ddetholiad o adnoddau, bydd rhaid i randdeiliaid cyhoeddus dalu costau o ran amser, teithio a chynhaliaeth.

6.27 Opsiwn Dau sy'n gosod y baich ariannol lleiaf ar gyhoeddwyr, ac mae'n arwain at gostau y gellir eu rheoli o fewn cyllidebau presennol Llyfrgelloedd, tra'n sicrhau casgliad hanesyddol a diwylliannol parhaol ar gyfer cenedlaethau i ddod.

Cwestiwn 16: A ydych chi'n cytuno gyda'r dadansoddiad o gostau ac effeithiau pob opsiwn? Esboniwch pam. Beth arall ddylid ei ystyried?

Risgiau ac effeithiau eraill

6.28 Yn ogystal â chasglu tystiolaeth ar fuddiannau ac oblygiadau ariannol ar gyfer pob Opsiwn, fe nododd LDAP risgiau ac effeithiau penodol, yn gysylltiedig ag atebolrwydd sifil, cynnwys anghyfreithiol, cynnwys trydydd parti a deinamig, yn ogystal â'r effaith bosibl ar incwm cyhoeddwyr, a ddylanwadodd ar ei Argymhelliad hefyd.

6.29 Heb reoleiddio, nid yw unrhyw ddeunydd a gynaeafwyd gan y llyfrgelloedd yn amodol i delerau Deddf 2003. Felly, nid yw Opsiwn Un yn elwa o unrhyw un o amddiffyniadau'r Ddeddf, megis y rhai ar gyfer Llyfrgelloedd a chyhoeddwyr yn erbyn atebolrwydd difenwad.

6.30 Fodd bynnag, hyd yn oed gyda chynaeafu yn seiliedig ar reoleiddio, fel yn Opsiwn Dau, gallai canlyniadau'r Ymgynghoriad Eithriadau Hawlfraint gael effaith ar gadwraeth, mynediad a defnydd.

6.31 Fel arfer mae'n ofynnol i gyhoeddwyr yn defnyddio cynnwys trydydd parti ei dynnu i lawr wedi i drwyddedau ddod i ben. Gyda chynaeafu seiliedig ar ganiatâd, Opsiwn Un, byddai disgwyl i gyhoeddwyr gael caniatâd i ddefnyddio'r deunydd hwn o fewn archif. Fodd bynnag, gallai'r cyhoeddwyr hyn fod yn atebol os yw'r llyfrgelloedd wedi cynaeafu eu cyhoeddiadau dan reoleiddiad (Opsiwn Dau), yn cynnwys y cynnwys trydydd parti. Byddai polisi a gweithdrefn Rhybudd a Thynnu i Lawr yn diogelu llyfrgelloedd a chyhoeddwyr.

6.32 Gan fod y broses gynaeafu yn rhannol awtomatig, mae perygl y bydd llyfrgelloedd yn casglu deunydd anghyfreithiol. Mae trafodaethau eisoes wedi eu cynnal gyda'r Internet Watch Foundation (IWF) i nodi'r lefelau o risg sy'n gysylltiedig â sut y gellir eu lleihau. Mae'r IWF hefyd wedi cynghori ar y gweithdrefnau i'w dilyn os canfyddir deunydd o'r fath yn yr archif. Cafwyd trafodaethau ar wahân gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth hefyd i drafod unrhyw bryderon gan y Comisiynydd ynghylch data personol yn yr archif. Ar y cyfan, nid yw Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn gweld unrhyw reswm dros gyfyngu gweithgaredd cynaeafu yng nghyd-destun adneuo cyfreithiol, nac yn gweld angen am reoliadau atodol dros fynediad tu hwnt i'r hyn mae Deddf 2003 yn darparu, ag eithrio'r ychwanegiad i'r cynigion Rhybudd a Thynnu i lawr.

6.33 O ran cynaeafu seiliedig ar ganiatâd, fe nododd un o'r cyhoeddwyr a holwyd, "Nid yw caniatâd yn broblem. Gwybod pa wybodaeth i'w gynaeafu yw'r broblem ... oherwydd mae cynnwys ein gwefan yn newid yn rheolaidd, felly byddai angen delio â chwestiynau o'r fath pob tro fyddem yn cynaeafu." Mae cyhoeddwyr yn pryderu o ran sicrhau hawliau parhaus ar gyfer data neu ddelweddau ar gyfer safleoedd oedd ar gael yn rhad am ddim ond ar sail cyfnod penodol o amser. Wrth ystyried cynnwys deinamig, nid yw Opsiwn Un yn cynnwys y graddau o hyblygrwydd sy'n ofynnol i gasglu nifer fawr o gyhoeddiadau yn effeithiol, a heb osod baich ariannol gormodol ar gyhoeddwyr a llyfrgelloedd.

6.34 Yn yr arolwg a gyflawnwyd ar ddechrau 2008, mynegodd y cyhoeddwyr bryder ynghylch effaith posibl ar eu hincwm o adneuo (a mynediad uniongyrchol at) gyhoeddiadau sensitif i amser a mathau eraill o gyhoeddiadau sy'n creu incwm. Fel gydag adneuo print, gall adneuo cyhoeddiadau sydd ar gael yn rhydd ar-lein gynnwys darpariaethau ar gyfer trefniadau arbennig i fantoli unrhyw broblem bosibl (gweler paragraffau 6.43 a 6.44 ar embargos). Ymhellach, gellir lleihau risgiau gyda'r cyfyngiadau ar fynediad a sefydlwyd dan Ddeddf 2003.

Cwestiwn 17: A ydych yn cytuno gyda'r risgiau a nodwyd yma? Esboniwch pam. A oes risgiau eraill na ystyriwyd? Beth fyddai eu heffaith? A oes rhai risgiau nad ydynt wir yn risgiau? Pam?

Rhesymeg dros Reoleiddio

6.35 Mae Opsiynau Un (cynaeafu seiliedig ar ganiatâd) a Thri (gadael archifo i'r farchnad) yn methu bodloni'r gofyniad sylfaenol o greu casgliad cenedlaethol parhaol, sydd ar gael yn rhydd mewn safleoedd penodedig, fel yr oedd Deddf 2003 yn rhagweld.

6.36 Dim ond Opsiwn Dau, cynaeafu ac archifo yn seiliedig ar reoleiddio, fyddai'n bodloni'r gofyniad hwn am y rhesymau canlynol:

- **Cyfradd Adneuo:** Mae'r nifer helaeth o gyhoeddiadau sydd ar gael yn rhydd ar-lein a'r gyfradd cynnydd disgwyliedig (tua 15% y flwyddyn) yn cyflwyno her sylweddol o ran creu casgliad cynhwysfawr yn y modd mwyaf effeithiol posibl. Mae cynaeafu yn darparu'r datrysiad mwyaf effeithiol ac amserol ar gyfer adneuo cyhoeddiadau yn y categori hwn: mae cynaeafu yn seiliedig ar reoliadau yn sicrhau y gellir yn benodol gasglu cymaint â phosibl i adeiladu'r casgliad mwyaf cynhwysfawr ar gyfer cenedlaethau i ddod.
- **Cymesuredd:** Mae LDAP eisiau sicrhau bod costau a graddfeydd cyhoeddiadau yn gymesur i Argymhelliad ar gyfer rheoleiddio. Mae rheoleiddio yn ymateb priodol i'r nifer enfawr o gyhoeddwyr a chyhoeddiadau yn y categori hwn. Dyma'r dull mwyaf effeithiol o gasglu ar gyfer y llyfrgelloedd ac nid yw'n gosod unrhyw faich ariannol na gweinyddol uniongyrchol ar y cyhoeddwyr.
- **Gweithgareddau a Seilwaith Cynaeafu Presennol:** Er nad yw llyfrgelloedd wedi gallu cynaeafu'n helaeth ledled parth cyntaf y DU hyd yn hyn, mae cryn dipyn o'r seilwaith ac arbenigedd technegol fyddai angen arnynt eisoes wedi ei sefydlu. Mae ganddynt brofiad ymarferol o gynaeafu seiliedig ar ganiatâd ar gyfer Consortiwm Archifo'r We'r DU. Yn ogystal, mae'r Consortiwm Rhyngwladol Cadwraeth y Rhyngrwyd (IIPC), y mae'r Llyfrgell Brydeinig a Llyfrgell Genedlaethol yr Alban yn

aelodau ohoni, yn datblygu arfau, seilwaith a pholisïau i daclo heriau casglu a gwarchod yn rhyngwladol. Ymhellach, bydd gwybodaeth mae llyfrgelloedd cenedlaethol eraill sydd eisoes yn cyflawni cynaeafu ar lefel parth (e.e. yn Ffrainc, Denmarc, Seland Newydd ac Awstralia) wedi casglu hefyd yn cynorthwyo ei weithrediad yn y DU. Yn wir, mae llyfrgelloedd adneuo cyfreithiol y DU yn amcangyfrif y gallent ddechrau cynaeafu ar y sail hon, hyd at gwmpas o 80%, o fewn gweithdrefnau presennol ac o fewn cyfnod byr iawn.

- **Atebolrwydd Sifil:** Byddai rheoleiddio yn diogelu cyhoeddwyr a llyfrgelloedd rhag atebolrwydd sifil megis torri hawlfraint a difenwad. Fodd bynnag, mae risgiau posibl a allai gael effaith arwyddocaol, os nad costau.

Cwestiwn 18: A ydych yn cytuno gydag argymhelliad LDAP i reoleiddio'r cynnwys hwn? Os nad, beth ddylid gwneud y ei le?

Polisïau ar gyfer Adneuo, Mynediad a Defnydd

Cyfyngiadau ar weithgareddau parthed cyhoeddiadau sydd ar gael yn rhydd ar-lein

6.37 Mae LDAP yn argymell y polisïau canlynol parthed darparu mynediad a defnydd fel bo angen dan Adran 7 Deddf 2003:

- Ni osodir unrhyw gyfyngiad ar fynediad ar feysydd penodol amser ac amgylchiadau defnydd (7.4 (b)) a'r nifer o ddarllenwyr (7.4 (d)). Argymhella LDAP fod yr amodau mynediad safonol sydd eisoes wedi eu hawgrymau dan Ddeddf 2003 yn gywir ac nad oes angen unrhyw newid. Felly rhaid cyfyngu mynediad i ddarllenwyr (a staff) yn defnyddio terfynellau, sgriniau neu ddyfeisiadau a reolir gan y Llyfrgelloedd, a thra'u bod ar eiddo'r Llyfrgelloedd.
- Nid yw LDAP yn bwriadu ceisio ymestyn amodau mynediad ar feysydd penodol amser ac amgylchiadau defnydd (7.4 (b)) a'r nifer o ddarllenwyr (7.4 (d)).
- Ni chaniateir i Lyfrgelloedd addasu na newid cynnwys deallusol y deunydd ei hun. Rhaid gwarchod yr 'olwg a naws' gwreiddiol hefyd cymaint â phosibl (yn amodol i gyfyngiadau technegol).
- Yn achos 7.2 (b), rhaid i'r rheoleiddiad ganiatáu ar gyfer cynaeafu un copi ym mhob un o'r chwech o Lyfrgelloedd ac felly ei ystyried fel adneuo chwe chopi (h.y. un ar gyfer pob Llyfrgell Adneuo Cyfreithiol) i'r perwyl o storio, gwarchod a mynediad.
- I'r perwyl o warchod, rhaid caniatáu i Lyfrgelloedd Adneuo Cyfreithiol drosglwyddo cyhoeddiadau o un llwyfan technolegol i un arall os ceir uwchraddiad technoleg neu os bydd angen newid systemau.
- Ni chaniateir i Lyfrgelloedd fenthyg na throsglwyddo'r deunydd, ag eithrio yn achos llyfrgelloedd adneuo cyfreithiol eraill.
- Rhaid caniatáu i Lyfrgelloedd gopïo deunydd i'r perwyl o warchod y deunydd a sicrhau y gellir parhau i ddarparu mynediad, ond nid er mwyn cynyddu mynediad.
- Ni chaniateir i ddarllenwyr lawrlwytho na gwneud copïau electronig o unrhyw ddeunydd.
- Rhaid caniatáu i ddarllenwyr argraffu copi [ar bapur] o'r deunydd.
- Gofynna LDAP i gynnwys nodyn ar 'Ddiddymu Mynediad' (neu 'rybudd a thynnu i lawr'), fel bod deunydd yn eu casgliadau sy'n amodol i orchymyn neu ddyfarniad llys, y bydd Llyfrgelloedd sy'n amodol i rybudd yn cydymffurfio â'r llysoedd trwy wrthod unrhyw fynediad gan ddarllenwyr am gyfnod priodol o amser, a allai o bosibl fod yn nifer o flynyddoedd (nid yw hyn yn cynnwys dileu neu gael gwared ar dudalen ar y we).
- Yn achos 7.4 (f), rhaid caniatáu i Lyfrgelloedd gael gwared ar ddeunydd cyn ei gynnwys yn y casgliad, a ddiffinnir fel y pwynt cyn bod gan ddarllenwyr fynediad.
- Ymhellach, ni chaniateir i Lyfrgelloedd gael gwared ar ddeunyddiau unwaith y darparwyd mynediad i ddarllenwyr.

6.38 Parthed is-adran 7.4 (b),

- Gall Llyfrgelloedd adneuo cyfreithiol, er nad yw'n ofynnol iddynt ddyrannu embargos, ystyried ceisiadau sy'n seiliedig ar ragfarn ariannol arddangosadwy i'r ymgeisydd parthed amodau mynediad penodol.

6.39 Parthed (7.4 (c)), hoffai'r Panel gael cynnwys diffiniad y Ddeddf o 'darllenwr' ac 'unigolyn perthnasol' ble fo'n berthnasol. (Gweler Deddf 2003 Adran 5)

(a) Golyga "darllenwr" unigolyn sydd, i'r perwyl o ymchwil neu astudiaeth a gyda chaniatâd llyfrgell adneuo, ar eiddo llyfrgell a reolir ganddi;

(b) Golyga "unigolyn perthnasol" –
(i) llyfrgell adneuo neu unigolyn yn gweithredu ar ei rhan;
(ii) darllenwr;

(d) Mae cyfeiriadau at lyfrgell adneuo yn cynnwys cyfeiriadau at y Gyfadran Adfocadau."

Cefndir Polisi

6.40 Ar gyfer trafodaethau ar Adran 7, arweiniwyd LDAP gan yr hyn a ganiateir yn Neddf 2003 yn ogystal ag mewn ymarfer adneuo print fel pwyntiau mynegiant cychwynnol ar gyfer datblygu polisi. Arweiniodd yr ystyriaethau hyn at bolisi yn caniatáu i'r darllenwr argraffu, ond nid lawrlwytho na wneud copïau electronig ('copïo digidol'). Fe ganiateir i Lyfrgelloedd wneud copïau electronig er mwyn cadwraeth a pharhau i gynnig mynediad, ond nid er mwyn benthyg a throsglwyddo. Cafwyd trafodaethau pellach ar argraffu i bennu a ddylid cyfyngu ar faint neu'r gyfran o ddeunydd y gallai darllenwr argraffu ar bapur. Roedd LDAP yn cydnabod ei bod yn bosibl bod angen gwaith pellach ar y mater hwn; tra bod rhai aelodau o LDAP yn teimlo nad oedd angen unrhyw gyfyngiad ar gyfer y categori hwn o ddeunydd gan ei fod ar gael yn rhydd gan y cyhoeddwr yn wreiddiol, tra bod eraill yn teimlo y gallai diffyg cyfyngiad gael oblygiadau ehangach. Fodd bynnag, cytunodd holl aelodau'r LDAP, yn unol ag arferion adneuo print ac mewn cydnabyddiaeth o natur y deunydd, y dylid caniatáu i darllenwr argraffu copïau ar bapur.

6.41 O ran gwaredu (f), er nad yw Deddf 2003 yn gwahardd gwaredu ar gyfer cyhoeddiadau print, mae'n cynnwys gwaharddiad clir ar waredu cyhoeddiadau na argraffwyd. Felly, mae LDAP yn cydnabod fod angen rhestru'r hawl i wneud hynny mewn deddfwriaeth eilaidd, er enghraifft, o ran casglu ddyblyg a rhannol o gyhoeddiadau sydd ar gael yn rhydd ar-lein. Teimla LDAP ei bod yn bosibl mynegi darpariaeth gyfyngedig o'r fath hawliau i waredu, o bosibl mewn nodyn canllaw yn cyd-fynd â rheoleiddio, gan y gellid dadlau nad yw darpariaeth ddyblyg neu rannol o ddogfennau yn 'ddarpariaeth o ddeunydd perthnasol' dan Ddeddf 2003 ac na ellid ei ddehongli i fod yn groes i'r gofyniad i beidio gwaredu gan y casglwyd un copi yn yr achos cyntaf a'i gadw, ac yn yr ail achos ni chasglwyd copi cynrychiadol neu gyflawn ac felly ni ellid ystyried y 'gwaredwyd' arno.

6.42 Ceisiodd LDAP wahaniaethu rhwng cynnwys a gynaeafwyd sydd eisoes wedi ei gynnwys yn y casgliad parhaol a'r rhai sydd eto i'w cynnwys. Yn gyffredinol, byddai gwaharddiad yn erbyn gwaredu yn cwmpasu'r cyhoeddiadau sy'n rhan o'r casgliad parhaol yn unig, gan gael gwared ar gopïau dyblyg neu anghyflawn cyn iddynt ddod yn rhan o'r casgliad parhaol.

6.43 Parthed 7.4 (b), cychwynnodd trafodaethau gwreiddiol LDAP ar y testun o embargos gyda diffinio a dadansoddi natur y cyhoeddiadau oedd ar gael yn gyffredinol, yn rhad ac am ddim a heb gyfyngiad ar fynediad, casglu neu gynaeafu'r cyhoeddiadau hyn, a'r costau i gyhoeddwyr o gyflawni gweithgaredd o'r fath. Wrth ystyried y gost, edrychodd LDAP ar ganllawiau'r BRE er mwyn cael gwell dealltwriaeth o ba gostau a ddylid eu cynnwys. Gan ystyried y mathau o gostau a amlygwyd gan y BRE a rôl gymharol oddefol cyhoeddwyr yn y gweithgaredd cynaeafu (gweler y disgrifiad o gynaeafu uchod), tybiaeth gyntaf LDAP oedd nad oedd unrhyw gost wirioneddol (gweinyddol) i gyhoeddwyr, ac am fod y deunydd eisoes ar gael yn rhydd ar y we, nid oedd unrhyw angen am embargos. Fodd bynnag, mewn ymateb i bryderon

dilynol a fynegwyd gan aelodau LDAP a rhanddeiliaid eraill, ystyriodd LDAP ddau fesur a fyddai'n lleddfu pryderon cyhoeddwyr:

- Embargos, yr arfer hir sefydlog ar gyfer cyhoeddiadau argraffedig, ble gallai cyhoeddwr deunydd sydd, er enghraifft, â gwerth masnachol uchel ond wedi ei werthu mewn niferoedd bychan, yn gallu cysylltu â'r Llyfrgelloedd a thrafod embargo dros dro ar fynediad i eitemau a adneuwyd am gyfnod o 1-2 mlynedd fel arfer. Byddai'r embargos hyn a'u hamodau yn cael eu hadolygu ar sail fesul achos. Nid ydynt yn gwahardd casglu deunydd na mynediad iddo yn y pen draw. O ganlyniad i ystyried y cynsail print, perswadiwyd LDAP fod yr embargos yn bolisi rhesymol i'w weithredu yn achos cynaeafu cyhoeddiadau sydd ar gael yn rhydd ar-lein.
- Eithriadau, yr arfer o ganiatáu cyhoeddwyr mathau penodol o ddeunyddiau i gael eu heithrio rhag casglu a chadw eu cyhoeddiadau sydd ar gael yn rhydd, ac i ystyried yr eithriad hwn yn rhan o argymhellion polisi LDAP. Wedi ystyried, teimlai LDAP nad oedd eithrio yn bolisi rhesymol i'w weithredu yn achos cynaeafu cyhoeddiadau sydd ar gael yn rhydd ar-lein.

6.44 Mae LDAP wedi ystyried y ddau opsiwn mewn manylder, dan arweiniad ymarfer presennol, ymchwil ar fodelau busnes a ffrydiau incwm, yn ogystal â thrafodaethau gyda rhanddeiliaid cyhoeddi. Er nad yw'r un o'r trafodaethau hyn wedi cynhyrchu unrhyw gyswllt achosol rhwng yr ymarfer o adneuo cyfreithiol cyhoeddiadau sydd ar gael am ddim ar-lein a'r her i ffrydiau incwm, teimlai LDAP yn gryf y dylid darparu ar gyfer pryderon gwirioneddol cyhoeddwyr am effaith ar ffrydiau incwm yn y dyfodol. Yn yr achos penodol o gyhoeddiadau sydd ar gael yn rhydd ar-lein, mae'r broses o adneuo cyfreithiol yn darparu amgylchedd llawer mwy rheoledig ar gyfer mynediad na chartrefi'r darllenwyr (ble byddai'r deunydd yn hygyrch yn y lle cyntaf). Yr argymhelliad sy'n codi o hyn yw polisi i gyhoeddwyr unigol wneud cais am embargos ar sail achos unigol, fel cydnabyddiaeth o'r pryderon hyn, wedi ei fantoli â mandad o gasglu a chadw'r deunyddiau a sefydlwyd yn Neddf 2003.

6.45 Yn ogystal, teimlir nad yw embargos dewisol yn cyfaddawdu cywirdeb rheoleiddiad (fel y mae caniatáu mathau penodol o gyhoeddiadau i eithrio eu hunain), na "gwarchod rhag y dyfodol" y rheoleiddiad hwnnw (h.y. cynnwys hyblygrwydd yn y rheoleiddiad i gydnabod natur newidiol cyhoeddiadau o ganlyniad i dechnoleg a modelau busnes a bennir ganddo.) Mae'r pryder hwn am warchod rhag y dyfodol wedi bod yn sail ystyriaeth LDAP, gan ddechrau gyda'r ymgynghoriad EPS.

6.46 Parthed deunydd a gedwir yn y Llyfrgelloedd ar hyn o bryd a bennwyd i fod yn niweidiol o bosibl ac felly'n amhriodol ar gyfer mynediad i'r cyhoedd gan y llysoedd, ni fyddai'r llyfrgelloedd yn cael hysbysiad o unrhyw orchymyn neu gyfarwyddyd barnwrol yn erbyn y cyhoeddwr ar hyn o bryd. Dealla LDAP fod y Llyfrgelloedd yn ymwybodol o'r risgiau a chyngor presennol ar y mater hwn. Parthed cynaeafu anfwriadol o gyhoeddiadau ar-lein allai fod yn drosedd i'w cyhoeddi ac/neu ddosbarthu (e.e. dan Ddeddf Terfysgaeth 2006 a Deddf Troseddau Rhywiol 2003), gellir cyflwyno achos i eithrio llyfrgelloedd rhag atebolrwydd troseddol (yn unol â'r grym i wneud hynny dan Ddeddf 2003), ar gyfer y weithred o gynaeafu a chadw'r cyhoeddiad os yw'r Panel a'i aelodau o lyfrgelloedd yn gweld imiwnedd o'r fath yn nod dymunol.

Cwestiwn 19: A ydych yn cytuno â dull arfaethedig LDAP o adneuo cynnwys? Os nad, ym mha ffordd arall y gellid cyflawni hyn?

Cwestiwn 20: A ydych yn cytuno â dadansoddiad LDAP o ddarpariaethau mynediad? Esboniwch pam. Pa opsiynau eraill sydd ar gael?

Tybiaethau cost allweddol Llyfrgelloedd

6.47 Mae diffiniad y categori a rheolau tiriogaethedd yn pennu beth ellir ei gasglu. O fewn y rhain, mae'r model hwn yn cymryd yn ganiataol fod gofod y we'r DU wedi ei ddiffinio fel pob parth .uk a gofrestrwyd gan Nominet (6.1 miliwn yng nghanol 2007) ac oddeutu 50,000 o barthau eraill y gellir eu hadnabod yn rhwydd fel rhai a gyhoeddir yn y DU. Bydd y niferoedd yn parhau i dyfu 17% y flwyddyn ta 2011, yna o 15% tan 2016[10].

6.48 Fodd bynnag, mae 35% o barthau yn anweithredol[11], h.y. wedi eu cofrestru ond heb fod yn fyw, neu ble gellir 'dad-ddyblygu' cynnwys statig wedi'r ciplun cyntaf. Mae 2.5%[12] arall yn bennaf yn 'we ddofn' neu'n safleoedd wedi'i diogelu tu allan i gwmpas y categori hwn. Ar y cyfan, amcangyfrifir fod y nifer o wefannau sydd o fewn y cwmpas yn 3.9 miliwn yn 2007 gan gynyddu i 14.6 miliwn yn 2016.

6.49 Mae cyfartaledd maint pob safle wedi bod yn tyfu'n sylweddol pob blwyddyn. Fodd bynnag, mae'r model hwn yn tybio bod y rhan fwyaf o gynnwys clywedol, un o brif achosion twf, tu allan i'r cwmpas, ac felly mae cyfradd twf y flwyddyn o 5% yn unig yn fwy priodol. Mae'r maint cyfartalog hefyd yn amrywio'n ddramatig, o tua 5 megabeit ar gyfer 80% o safleoedd i 1 gigabeit ar gyfer 0.5% o safleoedd; mae'r model hwn yn tybio cyfartaledd pwysol o 25 megabeit. Fodd bynnag, o ran cynaeafu yn seiliedig ar ganiatâd, mae detholiad yn dueddol o ffafrio'r gwefannau mwy felly mae'r model hwn yn tybio cyfartaledd o 180 megabeit yn yr opsiwn hwnnw.[13]

6.50 Mae cost storio yn cynnwys gormodedd i sicrhau y cedwir yr archif yn ddiogel; dyblygir cynnwys (gyda mesurau diogelwch) ledled y tri nod yn seilwaith rhanedig y Llyfrgell Brydeinig/Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ar draws 2 nod yn seilwaith Llyfrgell Genedlaethol yr Alban. Fodd bynnag, mae gwir gost storio bob terabeit wedi gostwng o dros 30% y flwyddyn yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf ac fe ddisgwylir iddo barhau i ostwng 25% y flwyddyn tan 2016.[14]

6.51 Mae'r llyfrgelloedd eisoes wedi cynllunio ac adeiladu'r ddau seilwaith – ar wahân i rai elfennau – ac fe'i defnyddir i storio casgliadau digidol neu wedi digideiddio eraill yn ogystal â deunydd adneuo cyfreithiol. Felly mae'r model hwn yn ffocysu nid yn unig ar y costau system cynyddol – yn cynnwys adnewyddu offer pob tair blynedd – cyflogau, pensiynau, Yswiriant Gwladol, costau staff eraill cysylltiedig, a dyraniadau ar gyfer cefnogaeth a chostau cyffredinol, sy'n ofynnol er mwyn casglu a chadw deunydd 'y we am ddim'.

Cwestiwn 21: A ydych yn cytuno gyda'r tybiaethau costio hyn? Esboniwch pam. Beth ddylid ei gynnwys neu eithrio?

[10] Tybiaeth yn seiliedig ar ddata twf hanesyddol y DU gan Nominet, data .com/.org/.net hanesyddol o www.zooknic.com a http://www.oecd.org/dataoecd/56/34/32996948.pdf

[11] Tybiaeth yn seiliedig ar brofiadau dad-ddyblygu a adroddwyd gan Lyfrgell Frenhinol Copenhagen

[12] Ffynhonnell = http://www.press.umich.edu/jep/07-01/bergman.html

[13] Tybiaethau ac amcangyfrifon yn seiliedig ar ddata hanesyddol gan UKWAC a llyfrgelloedd cenedlaethol yn Nenmarc, Awstralia a Seland Newydd

[14] Tybiaethau ceidwadol yn seiliedig ar Moore's Law, Kryder's Law a Kurzweil a ddyfynnwyd mewn amrywiol erthyglau, a ffynonellau: http://www.sciam.com/article.cfm?articleID=000B0C22-0805-12D8-BDFD83414B7F0000&ref=sciam&chanID=sa006 a http://www.itrs.net/Links/2006Update/FinalToPost/01_SysDrivers_2006UPDATE.pdf

Profion Effaith Penodol: Rhestr Wirio

Defnyddiwch y tabl isod i arddangos faint ydych wedi ystyried effeithiau posibl eich opsiynau polisi.

Sicrhewch fod canlyniadau unrhyw brofion sy'n effeithio ar y dadansoddiad cost a budd wedi eu cynnwys yn y prif sylfaen tystiolaeth; gellir ychwanegu canlyniadau eraill.

Math o brofion a gyflawnir	Canlyniadau yn y Sylfaen Dystiolaeth?	Ychwanegu canlyniadau?
Asesu Cystadleuaeth	Oes/Na	Do/Naddo
Prawf Effaith Cwmnïau Bach	Oes/Na	Do/Naddo
Cymorth Cyfreithiol	Oes/Na	Do/Naddo
Datblygiad Cynaliadwy	Oes/Na	Do/Naddo
Asesiad Carbon	Oes/Na	Do/Naddo
Amgylchedd Arall	Oes/Na	Do/Naddo
Asesiad Effaith Iechyd	Oes/Na	Do/Naddo
Cydraddoldeb Hil	Oes/Na	Do/Naddo
Cydraddoldeb Anabledd	Oes/Na	Do/Naddo
Cydraddoldeb Rhyw	Oes/Na	Do/Naddo
Hawliau Dynol	Oes/Na	Do/Naddo
Prawfesur Polisïau Gwledig	Oes/Na	Do/Naddo

Atodiad E: Manylion Pellach ar Diriogaethedd

Rhagor o Wybodaeth ar 'Cyhoeddwyd yn y DU' (Tiriogaethedd) ar gyfer Gweithiau Ar-lein

7.1 Mae adrannau 5.3 i 5.6 yr argymhelliad hwn yn argymell dull o ddiffinio pa gyhoeddwyr a allai gael eu heffeithio gan reoleiddio ar gyfer y categori hwn o ddeunydd. Mae'r wybodaeth atodol am y diffiniad arfaethedig yn arddangos sut y gellir ei ddehongli o ran ymarfer.

7.2 Mae enw parth yn label dynodi sy'n diffinio cylch ymreolaeth, awdurdod neu reolaeth weinyddol yn y rhyngrwyd. Gallai un wefan gynnwys adnoddau gyda dim ond un enw parth megis 'unrhywsefydliad.co.uk' neu gallai hefyd gynnwys adnoddau gydag enwau parth eraill, megis un wefan yn cysylltu 'unrhywsefydliad.co.uk', 'unrhywsefydliad.com' ac 'unrhywsefydliad.biz'.

7.3 Gallai 'cyhoeddiad' ar-lein gynnwys unrhyw ffeil electronig, dogfen, delwedd, data, tudalen y we neu raglen ar y we. Mae hefyd yn cwmpasu cynnwys clywedol (sain a fideo) a ble fo hyn yn cynrychioli rhan, ond nid cyfanrwydd y gwaith; er enghraifft, mae gwefan newyddion ble ceir clipiau sain neu fideo wedi ei gynnwys, ond nid yw ffilmiau sinema, rhaglenni teledu na radio, albymau cerddoriaeth a chaneuon, hyd yn oed os ydynt wedi eu darparu trwy wasanaeth ar-lein megis BBC iPlayer.

7.4 Mae 'Cyhoeddwr' yn cynnwys unigolion, cwmnïau, grwpiau a sefydliadau, a dyma'r unigolyn neu gorff sy'n darparu cyhoeddiad, naill ai'n uniongyrchol neu trwy asiant yn gweithredu dan ei awdurdod. Mae hyn yn eithrio unigolion neu gyrff megis darparwyr gwasanaeth ar y we sy'n gwneud dim mwy na darparu'r seilwaith rhwydweithio neu'r dull o gyhoeddi, ond nad oes ganddynt unrhyw gyfrifoldeb uniongyrchol ar gyfer y cynnwys.

7.5 Mae 'darparu ar gyfer y cyhoedd' yn eithrio mewnrwydi preifat.

7.6 Mae 'cyfeiriad electronig yn DU' yn cyfeirio at unrhyw enw parth sy'n gysylltiedig â'r Deyrnas Unedig yn ddaearyddol, neu gyda rhan o'r Deyrnas unedig. Felly mae pob cyhoeddiad gydag enw parth **.uk** wedi eu cynnwys. Bydd unrhyw gyhoeddiadau gyda'r enwau parth **.sco** a **.cym** arfaethedig neu unrhyw enwau parth eraill y gellir eu creu yn y dyfodol ar gyfer rhanbarthau, dinasoedd neu drefi'r DU hefyd yn cael eu cynnwys. Oherwydd bod gan y rhain gyfeiriad electronig yn y DU, nid yw'n angenrheidiol i nodi ble mae'r cyhoeddwyr wedi ei leoli'n gorfforol.

7.7 Mae'n well gan rai cyhoeddwyr yn y DY ddefnyddio **.com, .biz, .tv** neu enwau parth generig neu ryngwladol eraill. Os oes gan y cyhoeddwyr 'gyfeiriad corfforol' yn y DU maent yn dal wedi eu cynnwys, waeth beth yw'r enw parth a ddefnyddir. Mae hyn yn cwmpasu cyhoeddiadau a ddarperir gan gyhoeddwr sydd naill ai wedi ei leoli yn y DU, neu gyda chwmni rhyngwladol gyda chyfeiriad yn y DU, neu gangen neu is-gwmni yn y DU o gwmni nad yw o'r DU.

7.8 Fodd bynnag, fe eithrir cyhoeddiadau os ydynt ar gael gan gyhoeddwr tu allan i'r DU, ac yn defnyddio cyfeiriad electronig nad yw yn y DU, er y gallai cynnwys cyhoeddiadau o'r fath fod ynghylch y DU neu'n berthnasol i'r DU, ac er y gallai rhywun yn y DU edrych ar neu brynu'r cyhoeddiad. Er enghraifft, nid yw Canllaw Teithio i Lundain sy'n cael ei ddefnyddio gan rywun yn y DU o fewn cwmpas os yw wedi ei gyhoeddi gan sefydliad yn yr Unol Daleithiau trwy wefan .com.

7.9 Gallai cyfeiriadau Protocol Rhyngrwyd (IP) ddynodi lleoliad cyfrifiadur neu weinydd sy'n gysylltiedig i'r rhyngrwyd a gall felly fod yn fodd defnyddiol o nodi p'un a yw cyhoeddiad o fewn cwmpas. Fodd bynnag, nid yw cyfeiriad IP ynddo'i hun yn ddigon; rhaid i'r cyhoeddiad naill ai fod o fewn parth y DU fel uchod neu rhaid i'r cyhoeddwr fod â chyfeiriad corfforol yn y DU.

Atodiad F: Manylion Pellach ar y Broses Gasglu

Esbonio'r Broses Gynaeafu

8.1 Amcan y Panel fu i gynnig proses adneuo sy'n gost effeithiol ar gyfer Llyfrgelloedd adneuo cyfreithiol ac nad yw'n gosod unrhyw feichiau costau gweinyddu ar gyhoeddwyr. Oherwydd ei fod o bosibl yn cynnwys cymaint o gyhoeddiadau, mae'r Panel wedi argymell bod llyfrgelloedd yn eu tynnu'n uniongyrchol o'r We yn defnyddio proses awtomatig ble nad oes angen gweithredu ar ran y cyhoeddwyr. Bydd y broses yn defnyddio arf meddalwedd ('cynaeafwr') i ymlusgo trwy barthau perthnasol y we.

8.2 Bydd rhestr epil gychwynnol o Leolyddion Adnoddau Unffurf (URLs) yn cael eu llwytho i mewn i'r cynaeafwr gan staff llyfrgell. Byddant fel arfer yn URLs ar gyfer tudalennau cartref neu wreiddyn parthau'r we sydd o fewn y cwmpas a argymhellwyd gan y Panel.

8.3 Ar gyfer pob URL, bydd y cynaeafwr yn anfon cais electronig i weinydd gwe'r cyhoeddwr i ddarparu copi o'r dudalen neu ffeil. Bydd pob cais yn cynnwys gwybodaeth sy'n dynodi:

- cyfeiriad Protocol Rhyngrwyd (IP) y cynaeafwr sy'n cyhoeddir' cais
- URL ar gyfer y dudalen neu ffeil a geisir
- 'llinyn asiant defnyddiwr' sy'n dynodi'r llyfrgell sy'n rheoli'r cynaeafwr a'r ffaith ei fod yn gais cynaeafu
- yr URL ar gyfer y dudalen ar y we sy'n cynnwys manylion am sut i gysylltu â'r llyfrgell, a gwybodaeth cyd-destunol am adneuo cyfreithiol ac amodau'r rheoliadau.

8.4 Mae'r gweinydd lletya yn ymateb yn awtomatig, gan ddarparu copi o'r dudalen neu ffeil i'r cynaeafwr. Wedi i'r cynaeafwr dderbyn copi, bydd yn cael ei gynnwys yng nghasgliad archif y llyfrgell.

8.5 Mae'r un broses fwy neu lai, er gyda gwahanol wybodaeth wedi ei gynnwys yn y 'llinyn asiant defnyddiwr', yn sylfaen i holl weithgaredd pori pob defnyddiwr ar y we; nid fydd rhaid i gyhoeddwyr ar y we wneud unrhyw newidiadau i'w systemau na chyflawni unrhyw weithredoedd i hwyluso hyn.

8.6 Efallai na fydd perchnogion gwefannau yn dewis cofrestru'r wybodaeth hon, ond yn sicr mae'n gyffredin iawn i gofrestru'r llinyn asiant defnyddiwr; mae nifer yn mynd ati i ddefnyddio'r wybodaeth hon i deilwra eu cynnwys ar gyfer gwahanol ddefnyddwyr, e.e. ar gyfer ffonau symudol yn hytrach na phorwyr cyfrifiadur.

8.7 Bydd llyfrgelloedd yn gosod rheolau a pharamedrau ar gyfer y cynaeafwr i sicrhau na cheir effaith niweidiol ar berfformiad y gweinydd lletya'r we:

- Bydd y ceisiadau am dudalennau gwe a dogfennau sydd ar gael yn gyhoeddus ac am ddim yn unig; ni fydd y cynaeafu yn mynd unrhyw le nad yw'n gyhoeddus.
- Dim ond yn ysbeidiol y cynaeafir tudalennau gwe a dogfennau; roedd amcangyfrifon cost y Panel yn seiliedig ar gyfartaledd tybiedig o ddwywaith y flwyddyn.
- Pan anfonir ceisiadau lluosog ar gyfer gwahanol dudalennau a ffeiliau i'r un gweinydd, bydd seibiant hael rhwng pob cais yn diogelu yn erbyn y perygl o ddefnyddio lled band neu orlwytho'r gweinydd.

- Ni fydd y cynaeafwr yn casglu unrhyw gynnwys a ddiogelir gan fur warchod neu unrhyw fath o rwystr megis enw defnyddiwr/cyfrinair.
- Ni fydd y cynaeafwr yn gwneud cais am unrhyw dudalennau neu ddogfennau heb ddolenni; felly ni ellir anfon cais am dudalennau neu ffeiliau nad ydynt yn rhan o wefan gyhoeddus.

8.8 Bydd y cynaeafwr yn dilyn dolenni yn awtomatig o'r hafan neu dudalen wreiddiol i'r lefelau nesaf i lawr yr un parth, gan gyhoeddi cais unigol ar gyfer pob tudalen neu ffeil.

Atodiad G: Holiadur

10.1 Mae'r cwestiynau canlynol yn ymwneud â'r cynigion a gyflwynir yn Atodiadau A i F.

Rhif y Cwestiwn	Cwestiwn	Tudalen
1	Beth yw'ch barn ar yr opsiynau dan ystyriaeth ar gyfer y cynnwys hwn?	10
2	A ddylid ystyried unrhyw opsiynau eraill? Os felly, beth ydynt?	10
3	Ydych chi'n cytuno gyda'r dadansoddiad o'r opsiynau hyn? Esboniwch pam.	10
4	Ydych chi'n cytuno fod cynaeafu yn darparu'r datrysiad mwyaf effeithiol ac amserol ar gyfer adneuo cyhoeddiadau yn y categori hwn? Esboniwch pam.	10
5	Ydych chi'n cytuno mai rheoleiddio yw'r dull mwyaf effeithiol o gasglu ar gyfer y Llyfrgelloedd ac nad yw'n gosod unrhyw faich ariannol na gweinyddol uniongyrchol ar y cyhoeddwyr? Esboniwch pam.	10
6	A ydych chi'n cytuno bod hyn yn ddiffiniad priodol ar gyfer y mathau o gyhoeddiadau y dylid eu cynnwys yng nghwmpas y rheoliadau? Esboniwch pam. A ddylid cynnwys unrhyw beth arall yn y diffiniad hwn? A ddylid eithrio unrhyw beth o'r diffiniad hwn?	12
7	A ydych chi'n cytuno gyda'r diffiniad o diriogaethedd y we yn y DU? Esboniwch pam. A ddylid cynnwys unrhyw beth arall yn y diffiniad hwn? A ddylid eithrio unrhyw beth o'r diffiniad hwn?	13
8	A ydych yn cytuno gyda'r dadansoddiad hwn o Barth Gwe'r DU? Esboniwch pam. Beth ydych chi'n credu fyddai effaith eich dadansoddiad?	13
9	Sut ydych yn gweld system a arweinir gan Lyfrgell Adneuo o gynaeafu'r we yn rhyngweithio gyda dyletswydd ar ran cyhoeddwr i adneuo dan Ddeddf 2003?	14
10	Beth fyddai'r modd mwyaf effeithiol i Lyfrgelloedd Adneuo sicrhau yr adneuir corff cynhwysfawr o gynnwys cymwys?	14
11	A ydych yn cytuno gyda'r model costio hwn? Esboniwch pam. A oes angen ystyried neu eithrio costau eraill?	15
12	A yw'r tybiaethau hyn yn adlewyrchu baich ariannol cyhoeddwyr yn ddigonol? A oes angen cynnwys neu eithrio unrhyw beth?	16
13	Ydych chi'n cytuno gyda'r dadansoddiad o'r opsiynau hyn? Esboniwch pam.	25

Rhif y Cwestiwn	Cwestiwn	Tudalen
14	A ydych yn cytuno gyda'r dadansoddiad ar ddarparu cynnwys i'r Llyfrgelloedd Adneuo? Esboniwch pam. Beth arall ddylid ei ystyried?	27
15	A ydych yn cytuno gyda'r model costio hwn? Esboniwch pam. Beth arall ddylid ei ystyried?	27
16	A ydych chi'n cytuno gyda'r dadansoddiad o gostau ac effeithiau pob opsiwn? Esboniwch pam. Beth arall ddylid ei ystyried?	28
17	A ydych yn cytuno gyda'r risgiau a nodwyd yma? Esboniwch pam. A oes risgiau eraill na ystyriwyd? Beth fyddai eu heffaith? A oes rhai risgiau nad ydynt wir yn risgiau? Pam?	29
18	A ydych yn cytuno gydag argymhelliad LDAP i reoleiddio'r cynnwys hwn? Os nad, beth ddylid gwneud y ei le?	30
19	A ydych yn cytuno â dull arfaethedig LDAP o adneuo cynnwys? Os nad, ym mha ffordd arall y gellid cyflawni hyn?	32
20	A ydych yn cytuno â dadansoddiad LDAP o ddarpariaethau mynediad? Esboniwch pam. Pa opsiynau eraill sydd ar gael?	32
21	A ydych yn cytuno â'r tybiaethau cost hyn? Esboniwch pam. Beth ddylid ei gynnwys neu eithrio?	33

Gallwn hefyd ddarparu
dogfennau i fodloni gofynion
penodol pobl ag anabledd.
Ffoniwch 020 7211 6200 neu anfon
e bost at enquiries@culture.gov.uk

Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon
© Hawlfraint y Goron
Rhagfyr 2009/PP1173

department for
culture, media
and sport

2 4 Cockspur Street
London SW1Y 5DH
www.culture.gov.uk